
# Ffiniau Pryder

## Masnachu Plant yng Nghymru



Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

ecpat UK

# Ffiniau Pryder

## Masnachu Plant yng Nghymru

03 Gwybodaeth
04 Rhagair
06 Cyflwyniad
08 Diffiniad o Fasnachu Plant
12 Cyd-destun Polisi y DU
16 Y Cyd-destun Cymreig
24 Methodoleg
30 Canfyddiadau
38 Astudiaeth Achos Fanwl
42 Themâu sy'n dod i'r amlwg
52 Argymhellion
56 Diweddglo
60 Rhestr o Acronymau
61 Atodiad 1 Lleoliadau'r Ymchwil
62 Atodiad 2 Trefn y Cyfweliadau
63 Atodiad 3 Sefyllfaoedd a ddefnyddiwyd yn yr Ymchwil
64 Atodiad 4 Rhestr Gwirio Pryderon
66 Atodiad 5 Ymatebwyr
67 Atodiad 6 Modelau Arfer Da
68 Ôl-nodiadau

Hoffai ECPAT UK ddiolch i'r holl unigolion a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon; rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau gonest yn fawr iawn. Hoffai ECPAT UK gydnabod y gefnogaeth benodol iawn a gafwyd gan Blant yng Nghymru a Chyngor Ffoaduriaid Cymru wrth helpu i baratoi ar gyfer yr astudiaeth hon. Yn olaf, diolch arbennig i Maria Battle, Dirprwy Gomisiynydd Plant Cymru, a Christine Roach, Cynorthwy-ydd Personol Maria Battle, am eu hanogaeth a'u cefnogaeth.

Gwnaed y gwaith ymchwil gan Emma Kelly, Debbie Beadle, Eleanor Glass (o ECPAT UK) ac Adrian Gray, Ymgynghorydd Annibynnol. Prawfddarllen gan Alice Macek, ECPAT UK. Golygwyd gan Shirley Eber.

Prosiect ymchwil dan oruchwyliaeth Christine Beddoe, Cyfarwyddwr ECPAT UK.

Ysgrifennwyd gan Emma Kelly.

Hawlfraint © ECPAT UK
Mawrth 2009

Dylunio gan elfen.co.uk



# Gwybodaeth

## Gwybodaeth am ECPAT UK

Mae ECPAT UK (End Child Prostitution, Child Pornography and Trafficking of Children for Sexual Purposes) yn un o brif sefydliadau hawliau plant y DU, ac mae'n ymgyrchu i amddiffyn plant rhag ecsbloetio rhywiol masnachol.

Mae ECPAT UK yn gweithio ar lefelau uchaf y llywodraeth, ond mae hefyd yn ymestyn allan at ymarferwyr a phobl sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant trwy ymchwil, hyfforddiant, a datblygu gallu.

ECPAT UK yw cynrychiolydd cenedlaethol ECPAT International, mudiad byd-eang mewn dros 70 o wledydd.

Mae ECPAT UK yn elusen gofrestredig (Rhif elusen 1104948) ac yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant (Rhif cwmni 5061385).

**ECPAT UK**
Grosvenor Gardens House
35 – 37 Grosvenor Gardens
Llundain SW1W 0BS
Y Deyrnas Unedig

T: 0207 233 9887
F: 0207 233 9869

info@ecpat.org.uk
www.ecpat.org.uk

## Gwybodaeth am Gomisiynydd Plant Cymru

Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru drwy ddeddfwriaeth. Crewyd y swydd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, ac ehangodd Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 ei faes gorchwyl a phennu prif nod y Comisiynydd, sef: diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant yng Nghymru.

Daeth Keith Towler yn ail Gomisiynydd Plant Cymru ar 1 Mawrth 2008.

**Comisiynydd Plant Cymru**
Tŷ Ystumllwynarth
Llys Siarter
Phoenix Way
Llansamlet
Abertawe SA7 9FS

T: 01792 765600
F: 01792 765601

Plas Penrhos
Oak Drive
Bae Colwyn
Conwy LL29 7YW

T: 01492 523333
F: 01492 523336

post@childcomwales.org.uk
www.childcomwales.org.uk

# Rhagair

**Mae plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu masnachu yn eithriadol o agored i niwed. Bydd llawer wedi profi o leiaf un math o gamdriniaeth ac mae rhai wedi sôn am gael eu treisio, eu curo, eu harteithio, eu hamddifadu o'u hanghenion sylfaenol a'u defnyddio fel caethweision. Caiff plant a phobl ifanc a fasnachwyd eu symud o'u gwlad enedigol i un neu fwy o wledydd newydd gan unigolion neu gangiau sydd wedi eu twyllo neu eu camarwain. Mae'n hanfodol, pan ddeuir o hyd iddynt, eu bod yn derbyn gofal ac amddiffyniad llawn y gwasanaethau statudol.**



**Keith Towler**
**Comisiynydd Plant Cymru.**
**Mawrth 2009**



Roedd y Casgliadau Terfynol diweddar a gafwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn argymell bod Llywodraeth y DU yn darparu adnoddau digonol i roi ei Gynllun Gweithredu Gwrth-Fasnachu ar waith yn effeithiol ac yn sicrhau bod safonau amddiffyn plant ar gyfer plant a phobl ifanc a fasnachwyd yn cwrdd â'r safonau rhyngwladol. I wneud hyn yn effeithiol yng Nghymru mae angen yn gyntaf i ni wybod beth yw graddfa'r broblem: faint o blant a phobl ifanc sy'n cael eu masnachu?; at ba ddiben maen nhw'n cael eu masnachu?; sut rydym ni'n ymateb?; a beth mae angen i ni ei wneud i amddiffyn y grŵp yma o blant a phobl ifanc, sydd mor agored i niwed, yn well? Dyna pam y gwnes i gomisiynu'r ymchwil yma ar fasnachu plant yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion tystiolaeth a gasglwyd ledled Cymru am blant a phobl ifanc yn cael eu masnachu i mewn i Gymru ac yng Nghymru i'w defnyddio ar gyfer llafur gorfod, ecsbloetio rhywiol, cynhyrchu canabis, cardota a chaethwasanaeth mewn cartrefi. Mae'r sampl yn fach, ond yn bendant dim ond cyfran fechan o'r holl achosion yw hyn. Nid oedd un awdurdod lleol mawr yng Nghymru yn barod i rannu data am achosion penodol ac ni chymerodd Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig ran yn y gwaith, er i ni ofyn nifer o weithiau.

Mae gan blant a phobl ifanc a allai fod wedi cael eu masnachu hawl i'r un amddiffyniad a chefnogaeth â phob plentyn a pherson ifanc arall yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn canfod nad yw hyn bob amser yn digwydd. Am y tro cyntaf, yn yr adroddiad hwn, mae gennym ryw syniad o raddfa'r broblem yng Nghymru, ac rwy'n credu y bydd llawer o bobl yn cael ysgytwad o ddarllen y dystiolaeth a geir yma.

I fynd i'r afael yn effeithiol â masnachu plant mae'n rhaid derbyn yn gyntaf ei fod yn bodoli. Gobeithio bydd yr ymchwil yma yn helpu i newid y diwylliant o anghrediniaeth. Mae ymarferwyr ar lawr gwlad wedi cyfrannu at yr argymhellion yn yr adroddiad a dylent helpu i wella ein harfer. Drwy gydweithio gallwn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, o ble bynnag maent yn dod, yn mwynhau'r un hawliau, gan gynnwys yr hawl i gael eu diogelu.

Hoffwn ddiolch o galon a mynegi gwerthfawrogiad didwyll i Christine Beddoe, Emma Kelly a'r lleill yn ECPAT UK am wneud yr ymchwil yma ar fy rhan a hefyd i bawb a gyfrannodd ato.

Nawr bod gennym beth tystiolaeth i gryfhau'r sefyllfa, rwy'n gobeithio bydd y rhai sy'n gallu gwneud gwahaniaeth yn cydnabod bod angen gweithredu i ddiogelu ac amddiffyn y plant hyn, sy'n agored i niwed.

# Cyflwyniad

**Comisiynwyd yr ymchwil yma gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i ystyried pa sylfaen o dystiolaeth sydd ar gael am fasnachu plant yng Nghymru. Er bod cryn dystiolaeth anecdotaidd[1], hyd yma bu diffyg data llinell sylfaen am blant a fasnachwyd i mewn i Gymru, o fewn y wlad neu allan ohoni. Nod yr ymchwil yma yw ymateb i'r bwlch yna ac mae'n adeiladu ar yr ymchwil a wnaed eisoes gan ECPAT UK yn Lloegr.**

**Mae ECPAT UK wedi arwain y gwaith o gadarnhau bod plant yn cael eu masnachu i mewn i'r DU, o fewn y wlad, ac allan ohoni. Edrychodd astudiaethau yn 2001[2] a 2004[3] ar lefelau ymwybyddiaeth ac adnabyddiaeth gweithwyr cymdeithasol o blant oedd yn cael eu masnachu ym Mwrdeistrefi Llundain. Dilynwyd hyn yn 2007 gan gyhoeddi *Missing Out; A Study of Child Trafficking in the North-West, North-East and West Midlands*, gan ECPAT UK gydag Achub y Plant. Amlygodd yr adroddiad hwn y niferoedd sylweddol o blant a fasnachwyd sy'n mynd ar goll o ofal awdurdodau lleol, ac mae hyn yn dal yn destun pryder gwirioneddol.**

**O'r darganfyddiad gwreiddiol bod plant yn cael eu masnachu yn Ne-ddwyrain Lloegr ym 1995, mae ECPAT UK yn awr yn derbyn ymholiadau am achosion posib o Loegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gellir egluro hyn yn rhannol yn sgîl tynhau mesurau diogeledd yn rhai o borthladdoedd Llundain, sydd wedi golygu bod mwy o blant yn dod i mewn i'r wlad trwy'r porthladdoedd rhanbarthol[4]. Ar ben hynny, nid yw masnachu plant bellach wedi'i gyfyngu i ardaloedd trefol; cafwyd hyd i blant mewn trefi a phentrefi gwledig llawer llai o faint[5].**

### Beth wnaethom ni

Mae'r astudiaeth hon yn edrych ar brofiadau 41 o ymarferwyr o Wasanaethau Cymdeithasol i Blant Awdurdodau Lleol[6], y Sector Gwirfoddol a'r Heddlu ledled Cymru. Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb lled-strwythuredig yn y pedwar lleoliad ymchwil, sef Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam. Casglwyd data o bob rhan o Gymru trwy holiaduron a gyfeiriwyd at Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol ac oddi wrth unigolion mewn swyddi strategol yng Nghymru. Gofynnwyd i'r rhai a gafodd eu cyfweld am eu profiadau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o weithio gyda phlant o wledydd tramor a allai fod wedi cael eu hecsbloetio a'r gwaith aml-asiantaeth yng nghyswllt y plant hyn.

### Beth oedd ein canfyddiadau

Daeth ein hastudiaeth o hyd i dystiolaeth o blant a allai fod wedi cael eu masnachu i mewn i Gymru, o fewn y wlad ac allan ohoni, gan gynnwys trefi y tu allan i Dde Cymru. Soniwyd wrthym am 45 o blant a oedd yn destun pryder, ac roedd 32 o'r plant hynny'n bodloni digon o feini prawf i gael eu cynnwys yng nghanlyniadau'r astudiaeth. Roedd naill ai'n hysbys neu'n destun amheuaeth bod y plant hyn wedi cael eu hecsbloetio trwy gael eu gorfodi i weithio mewn bwytai a siopau cludfwyd, i gynhyrchu canabis, i gael eu hecsbloetio'n rhywiol, i gardota ac i gaethwasanaeth yn y cartref. Cafwyd hyd i rai o'r plant hyn cyn i'r ecsbloetio ddigwydd, ac ni all yr ymarferwyr ond dyfalu beth allai fod wedi digwydd iddyn nhw pe na baen nhw wedi cael eu canfod.

Daeth llawer o faterion cyfarwydd o ymchwil flaenorol ECPAT UK i'r amlwg, megis achosion o blant yn mynd ar goll ac anawsterau eu hadnabod. Mae'n destun pryder bod tueddiadau eraill newydd wedi cael eu datgelu, megis diffyg asesiadau maethu preifat hyd yn oed ar ôl nodi plant, a'r diffyg casglu data ynghylch sut a pham y daeth y plant hyn i Gymru.

Thema gyson ar hyd yr astudiaeth oedd pa mor anodd yw hi i ymarferwyr wybod a yw plentyn wedi cael ei fasnachu neu beidio. Yn ein barn ni, mae hyn yn deillio o dri maes cysylltiedig; agweddau, gwybodaeth ac arfer, ar lefel bersonol a sefydliadol.

### Agweddau

Roedd yr agwedd o ran a allai plant gael eu masnachu yng Nghymru yn amrywio'n fawr, ond roedd rhai ymarferwyr yn cael trafferth gyda'r syniad ei fod yn digwydd yn eu hardal leol. Roedd masnachu plant yn cael ei drafod fel rhywbeth sy'n 'digwydd mewn mannau eraill', yn enwedig mewn dinasoedd yn Ne-ddwyrain Cymru, gydag ymarferwyr yn dyfynnu adroddiadau papur newydd fel tystiolaeth o hyn. Derbyn y posibilrwydd y gall masnachu plant ddigwydd yn lleol yw'r sylfaen ar gyfer pob gweithredu ac ymyrraeth yn y dyfodol. Mae gwybod pwy yw'r plant sydd wedi cael eu masnachu yn dibynnu ar dderbyn y posibilrwydd bod y broblem yn wir yn bodoli.

### Gwybodaeth

O ran gwybodaeth, mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn cael cyfleoedd i gasglu gwybodaeth a dod i ddeall y maes hwn. Gan fod gweithdrefnau diogelu wrth wraidd yr ymatebion i blant sydd wedi dioddef cael eu masnachu, mae'n bwysig bod ymarferwyr yn dysgu am fasnachu plant, ym mha gyd-destunau mae'n digwydd, a'r anawsterau y gallai'r plant a'r ymarferwyr eu hwynebu. Yn yr astudiaeth fach hon, cawsom ni fod y lefelau o wybodaeth yn amrywio'n fawr. Mewn rhai ardaloedd, roedd cilfachau o arbenigedd, ond mewn eraill, soniodd unigolion eu bod yn gorfod brwydro i gasglu gwybodaeth.

### Arfer

Os yw'r agweddau'n wael a'r wybodaeth heb ei datblygu, bydd yr arfer o ddiogelu plant a fasnachwyd a hyrwyddo'u lles bron yn amhosib. Yn ein barn ni, dyna pam y gadawyd rhai o'r plant a ddisgrifir yn yr astudiaeth hon mor agored i niwed. Mae hyn yn fater i reolwyr ac yn gyfrifoldeb unigol. Mae'n ddyletswydd ar asiantaethau sy'n dod i gysylltiad â phlant o wledydd tramor ddarparu cefnogaeth dda i'w staff i'w galluogi i weithio'n effeithiol.

Ar hyd yr adroddiad hwn, cyfeirir at yr holl blant nad ydynt yn ddinasyddion sydd yn y Deyrnas Unedig fel 'plant a wahanwyd'. Mae 'plant' yn cyfeirio at unrhyw un hyd at 18 oed.

# Diffiniad o fasnachu plant



Mae masnachu plant yn golygu symud plant ar draws neu o fewn ffiniau cenedlaethol neu ryngwladol er mwyn eu hecsbloetio. Daw'r diffiniad rhyngwladol a dderbynnir o fasnachu pobl o'r Protocol to Prevent, Suppress and Punish Trafficking in Persons, Especially Women and Children, supplementing the United Nations Convention against Transnational Organized Crime (2000, "Protocol Palermo"), a gadarnhawyd gan y DU ym mis Chwefror 2006. Yn ôl Erthygl 3:

*A "Trafficking in persons" shall mean the recruitment, transportation, transfer, harbouring or receipt of persons, by means of the threat or use of force or other forms of coercion, of abduction, of fraud, of deception, of the abuse of power or of a position of vulnerability or of the giving or receiving of payments or benefits to achieve the consent of a person having control over another person, for the purpose of exploitation. Exploitation shall include, at a minimum, the exploitation of the prostitution of others or other forms of sexual exploitation, forced labour or services, slavery or practices similar to slavery, servitude or the removal of organs;*

*B The recruitment, transportation, transfer, harbouring or receipt of a child for the purpose of exploitation shall be considered "trafficking in persons…*

*C "Child" shall mean any person under age of eighteen years of age.*

O dan y protocol hwn ac yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), plentyn yw unrhyw un o dan 18 oed.

Mae gwahaniaeth clir rhwng masnachu a smyglo. Mae smyglo'n golygu symud pobl i un man i fan arall – weithiau am bris uchel – ond mae'r berthynas rhwng y person a'r smyglwr yn dod i ben wrth iddynt gyrraedd eu cyrchfan. Mae masnachu hefyd yn ymwneud â symud pobl, ond yr elfen hollbwysig yw'r bwriad i'w hecsbloetio yn eu cyrchfan. Yn ôl diffiniadau rhyngwladol, nid oes angen i blant fod wedi cael eu gorfodi, eu bygwth na'u twyllo i'w cael i fudo – os defnyddir y plentyn er budd i berson arall, mae'r plentyn yn dioddef cael ei fasnachu. Felly gall plentyn gytuno i deithio i'r DU er mwyn gweithio neu i fyw gyda theulu, heb sylweddoli y bydd yn cael ei ecsbloetio ar ôl cyrraedd. Mae llawer o blant a'u teuluoedd yn cael eu twyllo gan y bobl sy'n eu masnachu; maent yn addo gwaith cyfreithlon a bywyd gorllewinol, ond yn lle hynny cânt eu dal a'u hecsbloetio. Ni ddylid tanbrisio'r awydd i wella'r cyfleoedd sydd ar gael mewn bywyd, ac i lawer o blant mae'r gobeithion hyn am fywyd gwell yn cael eu hecsbloetio'n ddifrifol.

Gall plant gael eu hecsbloetio mewn llawer o ffyrdd, ond mae ymchwil yn y DU wedi dangos bod plant a fasnachwyd wedi cael eu hecsbloetio mewn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol[7]:

- Ecsbloetio Rhywiol
- Llafur Gorfod (yn cynnwys gwaith llaw neu lafur amaethyddol, ymwneud â'r fasnach arlwyo, a chael eu gorfodi i weithio ar 'fferm canabis')
- Caethwasanaeth yn y Cartref
- Mabwysiadu Rhyngwladol Anghyfreithlon
- Twyll Budd-daliadau/ Mân Droseddau/ Cardota
- Priodas Orfodol.



## Masnachu Mewnol

**Gan fod masnachu pobl yn golygu eu symud gyda'r bwriad o'u hecsbloetio, gall y symudiadau hyn ddigwydd hefyd o fewn ffiniau – mae hyn yn golygu bod modd masnachu dinasyddion y DU o fewn y DU, a bod modd masnachu plant agored i niwed o wledydd tramor mewn gwahanol rannau o'r wlad ar ôl iddynt gyrraedd y DU. Yr enw ar hyn yw 'masnachu mewnol'. Gwnaed masnachu mewnol yn drosedd o dan Adran 58 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 lle nodir:**

**A person commits an offence if he intentionally arranges or facilitates travel within the United Kingdom by another person (B) and either –**

***A he intends to do anything to or in respect of B, during or after the journey and in any part of the world, which if done will involve the commission of a relevant offence,***

***or***

***B he believes that another person is likely to do something to or in respect of B, during or after the journey and in any part of the world, which if done will involve the commission of a relevant offence[8].***

Y dinasyddion o'r DU sy'n tueddu i fod yn destun 'masnachu mewnol' yw merched 12-16 oed, y mae rhai ohonynt eisoes yn agored i niwed o ganlyniad i golli diddordeb yn yr ysgol neu oherwydd problemau gartref. Mae proses o'u paratoi yn digwydd cyn iddynt gael eu cymryd i fannau eraill yn y DU, fel arfer dros y penwythnos, i gael eu hecsbloetio'n rhywiol. Caiff plant a wahanwyd hefyd eu symud o amgylch y DU i'w hecsbloetio'n rhywiol. Mae angen rhagor o ymchwil i weld y nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau ym mhatrymau masnachu mewnol dinasyddion a plant a wahanwyd[9].

Mae masnachu mewnol hefyd yn derbyn sylw yn Neddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr) 2004 sy'n ei gwneud yn drosedd '*trefnu neu hwyluso teithio o fewn y Deyrnas Unedig*'[10] at ddibenion ecsbloetio. O dan y Ddeddf hon, cymerir bod ecsbloetio'n golygu gweithgareddau megis caethwasiaeth, llafur gorfod, tynnu organau, neu gael eu gorfodi i gaffael manteision o unrhyw fath ar gyfer person arall.

# Cyd-destun Polisi y DU



**Ers i *Missing Out* gael ei gyhoeddi, bu nifer o ddatblygiadau sylweddol yng nghyswllt adnabod a chefnogi plant a fasnachwyd. Mae'r holl ddatblygiadau hyn yn gwella'r fframwaith statudol presennol a luniwyd i ddiogelu lles plant yng Nghymru a Lloegr.**

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ym 1989, mae rhwymedigaeth ar wladwriaethau i gymryd camau cadarnhaol i amddiffyn y plentyn rhag pob math ar ecsbloetio a chamdriniaeth rywiol sy'n peryglu unrhyw agwedd ar les y plentyn. Daeth y DU yn Wladwriaeth oedd yn Barti i'r CCUHP ym mis Rhagfyr 1991. O ganlyniad, mae rhwymedigaeth ar y Llywodraeth i gyflawni'r holl fesurau cenedlaethol, dwyochrog ac unochrog i atal plant rhag cael eu cipio, eu gwerthu na'u masnachu at unrhyw ddiben neu mewn unrhyw ffurf. Datblygwyd yr *Optional Protocol to the CRC on the sale of children, child prostitution and child pornography* yn 2000 i ddarparu rhwymedigaethau mwy manwl ynghylch amddiffyn plant sydd wedi dioddef cael eu masnachu. Llofnododd y DU yr *Optional Protocol* ym mis Medi 2000, ac ym mis Medi 2008 cyhoeddodd ei bwriad i'w gadarnhau.

### Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl

Ar 17 Rhagfyr 2008, cadarnhaodd Llywodraeth y DU Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl (2005). Mae'r Confensiwn yn cyflwyno'r amcanion canlynol:

A. *to prevent and combat trafficking in human beings, while guaranteeing gender equality;*
B. *to protect the human rights of the victims of trafficking, design a comprehensive framework for the protection and assistance of victims and witnesses, while guaranteeing gender equality, as well as to ensure effective investigation and prosecution;*
C. *to promote international cooperation on action against trafficking in human beings.*

Mae'r Confensiwn hwn yn rhwymo Llywodraeth y DU i nifer o egwyddorion allweddol a luniwyd i amddiffyn a chefnogi plant ac oedolion sydd wedi cael eu masnachu. Mae gwybod yn iawn pwy yw'r dioddefwyr wrth wraidd y Confensiwn, tasg sydd "*yn hollbwysig, yn aml yn anodd, ac yn galw am ymholiadau manwl*"[11]. I helpu i'w hadnabod, cyflwynir cysyniad 'sail resymol'. Mae hyn yn cydnabod y gall fod pryderon ynghylch masnachu pobl na ellir eu cadarnhau heb asesiad manwl. Tra bod yr asesiad hwn ar waith, dylid cydnabod yr unigolyn fel person a fasnachwyd a rhoi iddo/iddi'r holl gefnogaeth ac amddiffyniad angenrheidiol a geir o dan y Confensiwn. Mae cymorth pellach i'w hadnabod ar gael trwy 'Awdurdod Cymwys' dynodedig. Ar adeg ysgrifennu, nid yw'r Llywodraeth wedi gwneud penderfyniad terfynol ynghylch pa asiantaethau fydd yn awdurdodau cymwys. Fodd bynnag, mae'n fwy na thebyg mai Canolfan Masnachu Pobl y Deyrnas Unedig (UKHTC)[12] fydd yr awdurdod cymwys canolog.

Mae'r erthyglau yn y Confensiwn sy'n ymwneud â mesurau amddiffyn arbennig yn arbennig o berthnasol i blant a phobl ifanc. Mae'r Confensiwn yn eglur iawn, mewn achosion lle bo ansicrwydd ynghylch a yw'r plentyn o dan neu dros 18, y dylid eu trin fel plentyn a rhoi mantais yr amheuaeth iddynt nes bod eu hoedran wedi cael ei wirio. Yn achos rhai plant a wahanwyd, mae anghytundeb ynghylch eu hoedran wedi golygu eu bod nhw wedi cael eu trin fel oedolion a'u rhoi mewn perygl posib[13]. Dylai'r arfer hwn beidio wrth i'r Confensiwn ddod i rym ar 1 Ebrill 2009.



### Cynllun Gweithredu'r DU yn erbyn Masnachu mewn Pobl

Yn 2007 cyhoeddodd Llywodraeth y DU Gynllun Gweithredu ar daclo masnachu pobl, a ddiweddarwyd yn 2008. Mae Pennod 4 o'r Cynllun Gweithredu'n pennu'r camau gofynnol yng nghyswllt plant, yn cynnwys y rheidrwydd ar gyfer "*atal, ymchwilio a gorfodi'r gyfraith*"[14] yn ogystal â materion diogelu. Mae'r camau gweithredu hyn yn ymwneud â casglu data ar blant sy'n ddioddefwyr, gwella'r dull o'u hadnabod a mecanweithiau ymchwilio. Amlygir pwysigrwydd hyfforddiant i weithwyr proffesiynol o bob asiantaeth, yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth gyda chwmnïau awyrennau a'r rhai sy'n gweithio yn y porthladdoedd lle ceir mynediad i'r DU.

Yn y fersiwn a ddiweddarwyd yn 2008, rhoddir sylw i'r angen am ddatblygu Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM), fel cam cyntaf yn rhwymedigaethau'r DU o dan Gonfensiwn Cyngor Ewrop. Bydd yr NRM yn ei le erbyn Ebrill 2009 i gefnogi'r "broses ar gyfer pennu "*sail resymol dros gredu" y gallai plentyn unigol fod yn dioddef cael ei fasnachu*"[15].

### Côd Ymarfer UKBA ar gyfer Diogelu Plant rhag Niwed

Nid yw UKBA wedi'i gynnwys o dan ddyletswydd Adran 11 (Lloegr) neu Adran 28 (Cymru) o Ddeddf Plant 2004 i sicrhau "*bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan roi sylw i'r angen am ddiogelu a hyrwyddo lles plant*"[16]. Mae cyhoeddi *Côd Ymarfer UKBA ar gyfer Diogelu Plant rhag niwed (2009)* o dan Adran 21 o Ddeddf Ffiniau'r DU 2007 yn ymgais i ymateb i'r diffyg hwn. Mae'r Côd yn cyflwyno pum egwyddor sy'n berthnasol i bob cyswllt rhwng plant a UKBA, yn cynnwys yr angen am ymgynghori â phlant, rhoi sylw i'w lles pennaf wrth wneud penderfyniad a bod "*pob plentyn yn bwysig*"[17]. Mae bellach yn ofynnol i staff UKBA lunio atgyfeiriadau pan fydd ganddynt bryderon ynghylch plentyn, yn enwedig os yw'r pryderon hynny'n ymwneud â masnachu. Ar ben hynny, bydd holl staff UKBA yn derbyn peth hyfforddiant ar ddiogelu plant ac yn cael eu gwneud yn ymwybodol o ddangosyddion masnachu pobl.

O fis Ionawr 2009, mae'r Mesur Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo yn mynd drwy'r senedd, ac un o feysydd allweddol y Mesur yw gosod "*dyletswydd newydd ar Asiantaeth Ffiniau'r DU i ddiogelu lles plant*"[18]. Y gobaith yw y bydd hyn yn rhoi'r un dyletswyddau i ddiogelu plant a hyrwyddo'u lles ar UKBA ag o dan Adran 11 ac Adran 28 o Ddeddf Plant 2004, fel y manylir isod.

### Fframwaith Diogelu

Yn ôl Deddf Plant 1989 a Deddf Plant 2004, mae gan blant a allai fod wedi cael eu masnachu hawl i'r un amddiffyniad a chefnogaeth ag unrhyw blentyn arall yn y wlad. Mae'r Deddfau hyn yn pennu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer pob plentyn sydd 'mewn angen' yng Nghymru a Lloegr. Yn Lloegr, cyflwynir cyfrifoldebau pob asiantaeth a'r mecanweithiau ar gyfer gwaith aml-asiantaeth i ddiogelu plant yn y canllaw statudol *Working Together to Safeguard Children* (2006). Ym mis Ebrill 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) '*Diogelu Plant – Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*'. Amlygir masnachu pobl yn y ddwy fersiwn o 'Gweithio gyda'n gilydd' fel rhywbeth sy'n golygu bod plant yn arbennig o agored i niwed a bod angen eu hamddiffyn. Yn 2007 lansiodd yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DSCF) ei arweiniad ar *Ddiogelu Plant a allai fod wedi cael eu Masnachu*, sy'n berthnasol yn Lloegr yn unig. Lansiodd LlCC ganllaw tebyg yn haf 2008. Yn y ddwy fersiwn, nodir yn eglur y gweithdrefnau mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol eu dilyn os byddant yn amau bod plentyn wedi cael ei fasnachu, a hefyd yr anawsterau ymarferol posib.

# Y Cyd-destun Cymreig



Mae masnachu plant wedi brigo i'r wyneb mewn nifer o ffyrdd gwahanol ar draws Cymru yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

## Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC)

Er bod materion mewnfudo yn faes heb ei ddatganoli, LlCC sy'n gyfrifol am y gwasanaethau i blant yng Nghymru. Mae LlCC wedi cymryd nifer o gamau'n ddiweddar i archwilio ac ymateb i faterion masnachu pobl yng Nghymru. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd wedi sefydlu Grŵp Trawsbleidiol ar Fasnachu Menywod a Phlant i edrych ar fasnachu menywod a phlant yng Nghymru. Un o'r materion allweddol a nodwyd eisoes gan y grŵp hwn yw nifer y plant sy'n mynd ar goll.

### Saith Nod Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mabwysiadodd LlCC Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sail ar gyfer pob polisi plant a phobl ifanc fyddai'n cael ei lunio. Mae LlCC wedi llunio saith nod craidd ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru ar sail erthyglau'r Confensiwn. Y nodau hyn yw'r sylfaen ar gyfer y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc sengl sydd bellach ar waith ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Isod ceir rhestr o'r nodau craidd, gyda chyfeiriad at yr erthyglau perthnasol yn y Confensiwn.

- *Dechrau'n Deg mewn Bywyd*
  Erthyglau 3, 29 a 36
- *Ystod Gynhwysfawr o Gyfleoedd ar gyfer Addysg, Hyfforddiant a Dysgu*
  Erthyglau 23, 28, 29 a 32
- *Yr Iechyd Gorau Posib, gyda Rhyddid rhag Camdriniaeth, Erledigaeth ac Ecsbloetio*
  Erthyglau 6, 18-20, 24, 26-29, 32-35, a 40
- *Chwarae, Hamdden, Chwaraeon a Gweithgareddau Diwylliannol*
  Erthyglau 15, 20, 29 a 31
- *Cael eu Trin â Pharch, gan Gydnabod eu Hil a'u Hunaniaeth Ddiwylliannol*
  Erthyglau 2, 7, 8, 12-17, a 20
- *Cartref a Chymuned Diogel*
  Erthyglau 19, 20, 25, 27, 32-35, 37 a 40
- *Plant a Phobl Ifanc heb eu rhoi o dan Anfantais gan Dlodi*
  Erthyglau 6, 26, 27 a 28

Mae pob un o'r nodau craidd yn bwysig i blentyn a allai fod wedi cael ei fasnachu. Mae'r trydydd nod craidd yn cyfeirio at yr iechyd gorau posib i holl blant Cymru, a rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth ac ecsbloetio.

Yn 2008 cyhoeddodd LlCC arweiniad i awdurdodau lleol yng Nghymru, sef Diogelu Plant a allai fod wedi cael eu masnachu. Yn ôl yr arweiniad hwn:

*"Mae dyletswydd ar bob asiantaeth i gydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sydd wedi cael eu masnachu i mewn i'r DU ac o fewn y wlad, i ddarparu'r un safon o ofal ag sydd ar gael i unrhyw blentyn arall yn y DU".*

### Canllawiau

Ym mis Ebrill 2008, lansiodd LlCC yr addasiad Cymraeg '*Diogelu Plant a allai fod wedi cael eu Masnachu*'. Mae'r canllaw hwn yn cyflwyno'r angen i ymarferwyr nodi dioddefwyr masnachu posib a gweithdrefnau aml-asiantaeth i ddiogelu plant. Mae hyn yn dilyn argymhelliad gan Grŵp Rheoliadau ac Arweiniad Byrddau Diogelu Plant Lleol (BDPLl) LlCC y dylai'r ddeddfwriaeth ar "Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 gael ei diwygio i gynnwys arweiniad mwy diweddar ar…Blant sy'n dioddef cael eu Masnachu " [19].

### Strategaeth Cynhwysiad Ffoaduriaid Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'r strategaeth hon, a gyhoeddwyd yn 2008, yn cyflwyno '*gweledigaeth LlCC ar gyfer cynhwysiad ffoaduriaid yng Nghymru*' [20]. Mae'r strategaeth yn cyfeirio'n benodol at fasnachu plant, er bod ffocws yn bennaf ar y trefniadau a'r gwasanaethau ar gyfer plant heb eu hebrwng sy'n ceisio lloches.

### Swydd arbenigol – Gweithiwr Cyngor a Gwybodaeth i Blant sy'n Ffoaduriaid

Sefydlwyd y swydd hon yn 2008 ac mae'n cael ei hariannu gan LlCC (gweler Atodiad 6 am fanylion cyswllt). Rôl y gweithiwr, sy'n rhan o Bartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, yw rhoi cyngor a gwybodaeth am faterion polisi ac arfer wrth gefnogi plant a wahanwyd, yn cynnwys plant a fasnachwyd. Mae'r swydd yn cwmpasu Cymru gyfan a hyd yma, mae mwyafrif yr ymholiadau wedi dod o ardaloedd heblaw dinasoedd Caerdydd, Casnewydd, Abertawe neu Wrecsam.

### Arian ar gyfer Llochesi

Mae LlCC wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd arian ar gael i greu llochesi ar gyfer menywod sydd wedi dioddef masnachu yn Ne Cymru[21]. Er na fydd y lloches hon yn adnodd i blant, mae'n arwydd o ymrwymiad LlCC i ddarparu gwasanaethau priodol ar gyfer dioddefwyr masnachu pobl.

### Masnachu Pobl ac Ecsbloetio Rhywiol yng Nghymru

Yn 2005, cyhoeddodd Barnardo's Cymru'r adroddiad cyntaf i gasglu tystiolaeth am blant a ecsbloetiwyd yn rhywiol yng Nghymru[22]. Roedd yr holl blant y soniwyd amdanynt yn yr adroddiad o darddiad Prydeinig. Mynegodd un o'r rhai a gyfwelwyd bryderon ynghylch y cysylltiadau rhwng masnachu plentyn o wlad dramor ac esbloetio rhywiol, er na chofnodir achos penodol yn yr adroddiad. Ers hynny, mae Barnardo's Cymru wedi bod yn casglu data ynghylch ecsbloetio rhywiol, gan ddefnyddio'r Fframwaith Asesu Risg ar gyfer Ecsbloetio Rhywiol (SERAF) a ddatblygwyd yn dilyn eu hadroddiad cyntaf. Mae peth o'r data a gasglwyd drwy ddefnyddio'r 'SERAF' wedi cynnwys manylion am blant o Gymru sydd mewn perygl o gael eu masnachu allan o'r DU[23]. Mae astudiaeth rhychwantu fwy diweddar gan Barnardo's Cymru yn 2008 yn datgelu hyd a lled y pryder am niferoedd sylweddol o bobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio'n rhywiol yng Nghymru[24]. Eto, ni chafwyd tystiolaeth o blant a wahanwyd yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol.

Er ei fod yn ymwneud â menywod mewn oed, datgelodd adroddiad yn 2007 gan Amnest Rhyngwladol Cymru fod nifer sylweddol o fenywod yn cael eu masnachu i Gymru er mwyn eu hecsbloetio'n rhywiol[25]. Mae sawl peth yn drawiadol am yr ymchwil yma. Yn gyntaf, nodwyd bod mwyafrif y dioddefwyr yn Ne Cymru, er bod yr awdur yn awyddus i nodi ei bod hi'n debygol nad yw masnachu menywod wedi'i gyfyngu i ganolfannau trefol Cymru. Cafwyd tystiolaeth o amheuon bod pobl yn cael eu masnachu yng Ngogledd Cymru, a fyddai'n adleisio tystiolaeth ddiweddar o'r DU yn gyffredinol bod masnachu yn digwydd ac ar gynnydd mewn ardaloedd gwledig[26]. Yn ail, disgrifir nifer o'r dioddefwyr fel rhai sy'n 18 oed adeg eu darganfod; y cwestiwn yw faint oedd eu hoedran wrth ddod i'r DU a pha mor hir y buont yn cael eu hecsbloetio? Nid yw'n amhosibl dychmygu y gallai rhai o'r menywod hyn fod wedi cyrraedd y wlad a chael eu hecsbloetio pan oeddent yn dal yn blant.

### Ymchwilio a Chefnogaeth

Hyd yma, cynhaliwyd dwy ymgyrch heddlu ar draws y DU gyda'r nod o daclo masnachu pobl yn y DU. Daeth Operation Pentameter yn 2006, a oedd yn ceisio adfer menywod a oedd wedi cael eu masnachu, o hyd i 12 o blant mewn puteindai neu barlyrau tylino a oedd yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol. Cynhaliwyd yr ymgyrch ddilynol, Operation Pentameter 2 (P2) am chwe mis yn ystod 2007-2008. Y tro hwn, er mwyn sicrhau monitro priodol ar y plant a adferwyd, ffurfiodd ECPAT UK a'r NSPCC y gwasanaeth Eiriolwr Cenedlaethol ar y cyd. Nodwyd cyfanswm o 13 o blant yn swyddogol yn ystod yr ail ymgyrch hon gan yr heddlu, er i'r gwasanaeth Eiriolwr Cenedlaethol dderbyn atgyfeiriadau eraill yn ystod yr ymgyrch trwy'r llinell gymorth benodedig. Oedran y plentyn ifancaf oedd 14. Nid oedd yr un o'r plant a atgyfeiriwyd yn rhai o Gymru, er bod un achos hysbys yn ymwneud â menyw a oedd yn 18 oed adeg ei darganfod yn ystod P2 wedi cael ei masnachu i'w hecsbloetio'n rhywiol pan oedd hi'n blentyn.

### Poppy Project

Mae'r Poppy Project, a reolir gan Eaves Housing yn Llundain, wedi derbyn nifer o atgyfeiriadau gan ymarferwyr yn Ne Cymru. Mae'r Poppy Project yn cynnig llety a gwasanaethau allgymorth i fenywod mewn oed sydd wedi cael eu masnachu i'w puteinio. Ers 2006, maent wedi derbyn 13 o atgyfeiriadau o Dde-orllewin Cymru, y derbyniwyd dwy ohonynt ar gyfer darpariaeth lety ac un ar gyfer cefnogaeth allgymorth. Er bod yr holl fenywod hyn yn eu hugeiniau[27], ni ellir ond dyfalu am ba hyd roeddent wedi cael eu masnachu i'w hecsbloetio'n rhywiol yn y DU.

### Llinell Gyngor a Gwybodaeth Masnachu Plant (CTAIL)

Llinell gymorth genedlaethol yw CTAIL, yng ngofal yr NSPCC mewn partneriaeth â'r Ganolfan Amddiffyn Plant rhag Ecsbloetio Ar-lein (CEOP) ac ECPAT UK. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyngor a gwybodaeth i unrhyw un sydd â phryderon ynghylch masnachu plant. O ddechrau'r gwasanaeth ym mis Medi 2007 tan ddiwedd Ionawr 2009 bu 157 o atgyfeiriadau i CTAIL. At ddibenion yr ymchwil yma dywedwyd wrthym bod dau o'r atgyfeiriadau hyn wedi dod oddi wrth ymarferwyr yng Nghymru[28]. Roedd un atgyfeiriad gan y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â merch rhyw 14-15 oed, o darddiad Pacistani. Nid yw canlyniad yr achos yma'n eglur. Daeth yr atgyfeiriad arall o'r sector gwirfoddol ynghylch bachgen Bangladeshi 15 oed y credid ei fod wedi cael ei fasnachu ar gyfer llafur gorfod (i weithio ym maes arlwyo). Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes yn gweithio gyda'r bachgen, ond adeg yr atgyfeiriad nid oedd yn byw yng ngofal yr awdurdod lleol; wedi hynny cafodd ei osod mewn gofal maeth.



### Plant a Wahanwyd a'u Masnachu

Gall plant sy'n dioddef masnachu fod yn blant heb eu hebrwng sy'n ceisio lloches neu gallant fod yn ddinasyddion o'r Undeb Ewropeaidd sydd â hawl mynediad i'r DU, neu efallai iddynt gyrraedd y DU yng nghwmni oedolyn, neu eu bod wedi dod i'r wlad ar fisa dilys. Yr un ffactor cyffredin yw'r ffaith nad yw'r un ohonynt yn byw gyda'u rhieni neu rywun sydd yn warcheidwad cyfreithlon arnynt. Felly fe'u disgrifir fel 'plant a wahanwyd' gan eu bod "*heb ofal nac amddiffyniad eu rhieni na gwarcheidwad cyfreithlon ac o ganlyniad yn dioddef yn gymdeithasol ac yn seicolegol yn sgîl y gwahanu hwn*" [29].

### Ymchwil

Mae'r ymchwil ar blant a wahanwyd yng Nghymru wedi cyffwrdd â masnachu plant. Yn 2006 cynhyrchodd Achub y Plant Cymru astudiaeth Cymru gyfan ar brofiadau plant a wahanwyd. Ar y pryd, roedd rhai ymarferwyr yn cydnabod bod masnachu plant yn broblem; daeth i'r amlwg fod yr heddlu wedi nodi nifer o achosion, a bod un Awdurdod Lleol wedi cofnodi amheuon ynghylch 10 achos yn ystod y pedair blynedd blaenorol. Fodd bynnag, nid oedd rhagor o dystiolaeth benodol ar gael ar y pryd. Mater allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd bod "*sicrhau tystiolaeth o fasnachu pobl yn broblem*"[30]. Roedd yr argymhellion yn deillio o'r adroddiad hwn yn cynnwys yr angen am grŵp Cymru gyfan ar fasnachu pobl, yn ogystal â hyfforddiant arbenigol ar "*faterion diwylliannol a masnachu plant*"[31]. Amlygodd yr adroddiad yn glir fod bylchau sylweddol yn yr wybodaeth ar y pryd. Roedd gan nifer o ymarferwyr amheuon ynghylch masnachu pobl, ond ni allai'r un ohonynt ddarparu tystiolaeth bendant ei fod yn digwydd yng Nghymru. Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â diffyg dealltwriaeth o ystyr masnachu plant – yn aml roedd unigolion wedi mynegi pryder ynghylch achosion oedd yn ymwneud â phlant a wahanwyd ond nid oeddent wedi teimlo'n ddigon sicr ynghylch y diffiniad o fasnachu i ddisgrifio achosion yn y termau hynny.

Roedd ymarferiad rhychwantu dilynol gan Achub y Plant yn 2008, o'r enw '*The care and protection of asylum-seeker and trafficked children in Wales*', yn cynnwys amcan i '*archwilio'r hyn sy'n hysbys am yr achosion o fasnachu pobl ymhlith ymarferwyr, gan archwilio'r arfer cyfredol wrth ymdrin ag achosion gwirioneddol neu amheuon*'[32]. Casglwyd data trwy gyfres o gyfweliadau a gweithdai rhanbarthol ledled Cymru, a chafwyd bod amrywiaeth mawr yng ngwybodaeth ymarferwyr am fasnachu plant a'u syniadolaeth yn ei gylch, gyda rhai yn gwybod ychydig ac yn credu nad oedd yn digwydd yng Nghymru, ac eraill yn meddu ar gryn arbenigedd yn y maes. O ran pwyso a mesur achosion, roedd problem eu hadnabod eto'n rhwystr mawr. Yn ôl yr ymarferiad rhychwantu, dim ond mewn pum achos o blith 131 o gyfweliadau y nodwyd bod amheuon ynghylch masnachu, er bod llawer o ymatebwyr wedi sôn am eu pryderon, gan ddangos eu bod yn amau bod nifer gwirioneddol yr achosion yn llawer uwch. Cafwyd bod yr wybodaeth am y canllawiau polisi cyfredol yn fylchog ymhlith ymarferwyr a oedd mewn cyswllt cyfyngedig â phlant a oedd yn destun rheolaeth fewnfudo. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth yn awgrymu y byddai ymarferwyr sy'n sylweddoli bod masnachu'n digwydd, yn cyfeirio'r achos at y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu petaent yn pryderu ynghylch diogelwch neu les plentyn.

## Data ystadegol am blant a wahanwyd

Er bod hanes hir o ymfudo i Gymru, dim ond yn ddiweddar y mae ardaloedd yng Nghymru wedi dod yn ganolfannau derbyn ar gyfer oedolion a theuluoedd sy'n destun rheolaeth fewnfudo. Polisi cyfredol UKBA yw trosglwyddo oedolion a theuluoedd sydd newydd gyrraedd i geisio lloches i ardaloedd dynodedig ar draws y DU; yr enw ar y rhain yw 'ardaloedd gwasgaru'. Ers 2001, Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam yw'r pedair ardal wasgaru gymeradwy ar gyfer llety a chefnogaeth UKBA yng Nghymru, er nad yw'r dosbarthiad rhwng y dinasoedd yn gyfartal o bell ffordd[33]. Yn ôl Cyngor Ffoaduriaid Cymru: '*Mae llai na 2,500 o bobl yn ceisio lloches yng Nghymru – mae hynny'n llai na 0.1% o gyfanswm y boblogaeth – a rhyw 10,000 o ffoaduriaid. Mae mwyafrif y ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid yn byw yng Nghaerdydd (44%), Abertawe (36%) a Chasnewydd (16%), gyda nifer bach yn byw yn Wrecsam (2%) a llond dwrn y tu allan i'r ardaloedd hyn*'[34].

Mae bwlch sylweddol yn y data am blant a wahanwyd yng Nghymru. Mae union niferoedd y plant heb eu hebrwng sy'n ceisio lloches (UASC) yng Nghymru yn dal yn anhysbys gan nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu gan y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, mae astudiaeth gan Gymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain yn 2001 yn nodi "*rydym yn gwybod bod rhyw 50-100 o blant heb eu hebrwng yn debygol o fod yn Ne Cymru*"[35]. Ers hynny, mae'r amcangyfrifon wedi cynyddu i 150 o rai o dan oed sy'n ceisio lloches heb eu hebrwng, yn ôl Cyngor Ffoaduriaid Cymru (2008)[36]. Mae data ar niferoedd y plant a wahanwyd sy'n byw gydag oedolyn nad yw'n berthynas yng Nghymru hyd yn oed yn anoddach ei gasglu oherwydd na fydd cyfrif amdanynt, oni bai bod y plant wedi dod i sylw gwasanaeth statudol. Mae ystadegau ar nifer yr oedolion sydd â phlant ar gael; dengys y ffigurau, o blith y 2,200 o geiswyr lloches yng Nghymru ar 2 Mehefin 2008, fod 59% yn deuluoedd[37].

## Plant a Fasnachwyd a'r Awdurdod Lleol

Mae gwybodaeth arall ynghylch plant a allai fod wedi cael eu masnachu wedi dod i'r amlwg trwy ddata awdurdodau lleol yng Nghymru. Er nad yw'r un awdurdod lleol yn cadw cofnod penodol o achosion plant lle ceir amheuon ynghylch masnachu, maent yn cofnodi gwybodaeth ynghylch plant sydd ar goll o ofal cyhoeddus a hysbysiadau maethu preifat.



## Plant sy'n mynd ar Goll

Mae'r cysylltiad rhwng masnachu a phlant o wledydd tramor yn mynd ar goll o ofal wedi'i sefydlu'n gadarn[38]. Mewn ymchwil gan ECPAT UK yn 2007, roedd 55% o'r holl blant yr amheuid eu bod yn cael eu masnachu wedi mynd ar goll o ofal yr awdurdod lleol, fel arfer yn fuan ar ôl eu derbyn. Amlygwyd pryderon tebyg yn ddiweddar gan Gymdeithas Pobl sy'n Gadael Gofal, a gasglodd ddata gan holl Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr ynghylch nifer y plant oedd ar goll o ofal; roedd mwyafrif y rheiny'n blant a wahanwyd[39]. Yn eu hadroddiad, Caerdydd oedd yr unig awdurdod yng Nghymru i restru data, a chofnodwyd chwe phlentyn a oedd ar goll o ofal[40].

Awgrymodd adroddiadau yn y cyfryngau yn haf 2008 fod 35 o blant ar goll o'r system addysg yng Nghaerdydd ac Abertawe, ac roedd pryderon "*ynghylch peryglon masnachu plant, priodas orfodol a phuteinio plant*"[41]. Roedd Awdurdodau Lleol eraill naill ai ddim yn cadw ffigurau neu heb unrhyw blant oedd ar goll o'r system addysg. Mae nifer y plant sydd ar goll wedi peri i Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Cyngor Caerdydd ymchwilio i weld a yw unrhyw rai o blith y plant hyn mewn perygl o gael eu masnachu neu eu gorfodi i briodi.

## Maethu Preifat

Daeth rheoliadau maethu preifat yng Nghymru i rym ar 1 Ebrill 2006. Ers hynny, bu dyletswydd ar deuluoedd i hysbysu'r Awdurdod Lleol os oes ganddynt blentyn yn aros gyda nhw am fwy na 28 diwrnod neu os ydynt yn bwriadu gwneud hynny. Mae taflen LlCC ar ofal maeth preifat yn disgrifio sefyllfaoedd megis '*plant a anfonir i'r wlad hon i gael addysg neu ofal iechyd gan rieni biolegol sy'n byw dramor*'[42] fel un yn unig o'r sefyllfaoedd lle gall fod angen asesiad maethu preifat. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael am niferoedd y plant sy'n cael eu maethu'n breifat yng Nghymru yn dangos, rhwng Ebrill 2007 a Mawrth 2008, fod 73 o achosion newydd o drefniadau maethu preifat dan oruchwyliaeth; mae 10 o'r trefniadau hyn ar gyfer plant a anwyd mewn gwledydd eraill [43].

Penododd un Awdurdod Lleol, Casnewydd, swyddog maethu preifat a ddisgrifiodd rai o'r trefniadau yr oedd wedi eu gweld ar gyfer "*plant mor ifanc ag wyth oed sydd wedi dod i'r DU o wledydd tramor i ddysgu Saesneg gyda ffrindiau i'w rhieni*"[44]. Rhaid i bob oedolyn (oni bai eu bod yn aelodau o'r teulu yn ôl y diffiniad yn Neddf Plant 1989) sy'n gofalu am blant o wledydd tramor fod yn destun asesiad maethu preifat i sicrhau eu bod yn ofalwyr addas a diogel. Mae hwn yn fesur diogelu hanfodol ar gyfer plant sydd eisoes yn agored i niwed oherwydd eu bod heb ofal ac amddiffyniad eu rhieni neu warcheidwad cyfreithlon.

# Methodoleg



Canolbwyntiodd yr astudiaeth hon, a oedd ar raddfa fach, ar gael hyd i sylfaen o dystiolaeth ar gyfer masnachu plant yng Nghymru. Amcanion yr astudiaeth oedd:

- Pennu lefelau'r ymwybyddiaeth o faterion masnachu plant ymhlith y gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau sector gwirfoddol dethol
- Canfod a oedd y gwasanaethau cymdeithasol wedi dod ar draws achosion a gadarnhawyd neu amheuon ynghylch masnachu plant
- Archwilio sut roedd y gwasanaethau cymdeithasol wedi ymdrin ag achosion o fasnachu plant a nodwyd
- Archwilio gweithdrefnau adrodd mewn achosion o fasnachu plant
- Archwilio i ba raddau mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo cydweithrediad rhwng asiantaethau statudol ac eraill, ac i ba raddau mae asiantaethau'n rhannu gwybodaeth ac yn cydweithio i ddiwallu anghenion plant a gafodd eu masnachu
- Nodi rhanddeiliaid eraill perthnasol a allai ffurfio gweithgor rhyngasiantaeth arbenigol ar fasnachu plant yng Nghymru.

Ar y cychwyn, canolbwyntiodd yr ymchwil ar bedwar lleoliad yng Nghymru – Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam (gweler Atodiad 1). Dewiswyd y lleoliadau hyn oherwydd mai dyna'r ardaloedd sy'n derbyn mwyafrif yr oedolion a'r plant sy'n ceisio lloches yng Nghymru[45]. Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb lled-strwythuredig yn y pedwar lleoliad ymchwil gydag unigolion o Wasanaethau Plant yr Awdurdodau Lleol a'r sector gwirfoddol. Cynhaliwyd wyth cyfweliad wyneb yn wyneb hefyd gyda'r heddlu, yn enwedig yn y porthladdoedd oedd yn rhoi mynediad i Gymru. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn rhwng Gorffennaf a Thachwedd 2008. Gwnaed ymdrechion sylweddol i drefnu cyfweliadau gyda staff UKBA yng Nghymru. Dewisodd UKBA beidio â chymryd rhan, er bod ECPAT UK a Chomisiynydd Plant Cymru wedi cysylltu ag uwch gynrychiolwyr UKBA yng Nghymru a Lloegr.

Yn dilyn y gyfres gyntaf o gyfweliadau ym mis Gorffennaf 2008, estynnwyd yr ymchwil ar draws Cymru ar y sail bod rhai o'r achosion y soniwyd wrthym amdanynt wedi digwydd y tu allan i bedwar lleoliad gwreiddiol yr ymchwil. Casglwyd data ychwanegol ledled Cymru trwy ohebiaeth ysgrifenedig a thros y ffôn. Anfonwyd llythyron at Wasanaethau Plant pob Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn gofyn iddynt ystyried a oedd ganddynt unrhyw achosion o blant o wledydd tramor yn cael eu hecsbloetio, ac ymatebodd naw i'r llythyr hwn (gweler Atodiad 5). Ar ben hyn, anfonwyd 'Rhestr Gwirio Pryderon' (gweler Atodiad 4) at 15 asiantaeth allweddol sy'n ymwneud â phlant neu geiswyr lloches ledled Cymru. Rhoddwyd yr wybodaeth yma hefyd ar wefan Plant yng Nghymru fel bod modd i unrhyw un oedd â diddordeb gyfrannu at yr astudiaeth. Dim ond un ymateb ysgrifenedig a dderbyniwyd gan ymarferydd unigol. Gwaetha'r modd, nid oedd cwmpas yr astudiaeth hon yn caniatáu cynnal cyfweliadau â phobl ifanc a nodwyd fel dioddefwyr posib masnachu. Yn amlwg, mae'n bwysig siarad â phobl ifanc i sicrhau dealltwriaeth uniongyrchol o'u profiadau; mae ECPAT UK yn awgrymu y dylid gwneud hyn fel gwaith dilynol.

### Ymatebion i'r cyfweliadau

Cynhaliwyd cyfweliadau â chyfanswm o 41 o bobl ar gyfer yr astudiaeth hon. Cafwyd 31 o gyfweliadau wyneb yn wyneb ag unigolion, siaradwyd â dau dros y ffôn, a chafwyd dau gyfweliad grŵp. Roedd swydd y rhai a gafodd gyfweliad yn eu sefydliadau yn amrywio o ymarferydd rheng flaen i uwch reolwr, yn dibynnu ar y cyfarwyddyd a gawsom ynghylch pwy roedd angen siarad â nhw. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau yn y cyfweliadau (gweler Atodiad 2) a rhoddwyd rhestr o sefyllfaoedd i'r rhai oedd yn cael eu cyfweld i'w hannog i feddwl am ecsbloetio plant o wledydd tramor (gweler Atodiad 3).



**Tabl 1- Rhannu'r rhai a gafodd gyfweliad yn ôl asiantaeth:**

| Sefydliad | Cyfanswm yr unigolion a gafodd gyfweliad |
|---|---|
| Ymarferwyr Awdurdod Lleol | 15 |
| Ymarferwyr Sector Gwirfoddol | 18 |
| Yr Heddlu | 8 |
| **Cyfanswm** | **41** |

**Tabl 2 – Rhannu'r unigolion a gafodd gyfweliad yn ôl lleoliad daearyddol:**

| | |
|---|---|
| Ardal 1 | 6 |
| Ardal 2 | 8 |
| Ardal 3 | 8 |
| Ardal 4 | 5 |
| Arall, yn cynnwys swyddi Cymru gyfan* | 14 |
| **Cyfanswm** | **41** |

* I weld rhestr lawn o'r lleoliadau hyn, cyfeiriwch at Atodiad 5

## Data

Roedd trefn lled-strwythuredig i'r cyfweliadau yn galluogi'r ymchwilwyr i gasglu data meintiol ac ansoddol. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried achosion yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, roedd peth data sylfaenol, megis oedran y plentyn neu ganlyniad achos, yn anodd ei ganfod gan fod rhai o'r bobl a gafodd eu cyfweld yn cael trafferth cofio union fanylion achosion neu'n teimlo bod cyfrinachedd yn cyfyngu arnynt. Nid oedd nifer o'r rhai a gafodd gyfweliad yn dymuno rhoi gwybodaeth fanwl, rhag ofn bod modd adnabod y plentyn, er i ni eu sicrhau y byddem yn gwneud pob gwybodaeth a roddwyd i ni yn ddi-enw.

## Adnabod Achosion

Adeiladodd yr astudiaeth hon ar yr hyn a ddysgwyd o ymchwil flaenorol gan ECPAT UK yn Lloegr, a ddangosodd fod llawer o ymarferwyr yn dal i ddysgu am fasnachu plant ac felly na ellid rhagdybio bod ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o'r materion hyn na gwybodaeth fanwl am achosion. Wrth ystyried yr achosion a ddisgrifiwyd wrthym yn ystod yr astudiaeth hon, defnyddiwyd cysyniad cyfreithiol "sail resymol". Yn y gyfraith, y sail ar gyfer hyn yw "Rwy'n amau, ond ni allaf brofi", sydd â throthwy is nag mewn achosion troseddol lle mae angen i'r prawf fod y tu hwnt i amheuaeth resymol. 'Sail resymol' yw'r sbardun a ddefnyddir yng Nghonfensiwn Masnachu Pobl Cyngor Ewrop 2005, i ddarparu cefnogaeth ac amddiffyniad i ddioddefwyr posib masnachu. Mae'r nodiadau esboniadol i'r Confensiwn yn darllen fel a ganlyn:

"*To protect and assist trafficking victims it is of paramount importance to identify them correctly. Article 10 seeks to allow such identification so that victims can be given the benefit of the measures provided for in Chapter III. Identification of victims is crucial, is often tricky and necessitates detailed enquiries. Failure to identify a trafficking victim correctly will probably mean that victim's continuing to be denied his or her fundamental rights and the prosecution to be denied the necessary witness in criminal proceedings to gain a conviction of the perpetrator for trafficking in human beings. Through the identification process, competent authorities seek and evaluate different circumstances, according to which they can consider a person to be a victim of trafficking*"[46].



Un nodwedd arwyddocaol o Gonfensiwn Cyngor Ewrop yw ei fod yn cydnabod na ellir profi bod masnachu wedi digwydd, yn y mwyafrif o achosion, nes bod adnabyddiaeth lawn ac asesiad wedi digwydd.

Yn yr astudiaeth hon, cofnodwyd pob achos y soniwyd ei fod yn destun pryder ar y 'Rhestr Wirio Pryderon', gan nodi manylion, yn cynnwys a oedd unrhyw wybodaeth a roddwyd yn cyfateb i unrhyw un o'r 19 dangosydd. Cafodd unrhyw achos a oedd yn cynnwys dangosyddion ym mhob un o'r tri chategori ecsbloetio, symud a rheolaeth eu cynnwys yn y ffigurau terfynol. Er nad yw sefyllfa lle mae plant yn cael eu masnachu yn galw am brawf o 'reolaeth' oedolyn dros blentyn, mae'n aml yn arwydd gwerthfawr pan na fydd dangosyddion eraill yn amlwg ar unwaith. Mewn llawer o achosion, diffyg gwybodaeth gan y sawl oedd yn cael y cyfweliad, naill ai oherwydd methu â chofio'r holl fanylion neu ddiffyg awydd i drafod materion cyfrinachol, a arweiniodd at achosion yn cael eu hepgor o'r canlyniadau terfynol. Yn olaf, osgowyd cyfri dwbl trwy groeswirio achosion a gofnodwyd ar y 'Rhestr Gwirio Pryderon'. Er bod cyfeiriad at ambell achos fwy nag unwaith, roedd nodweddion unigryw pob achos yn golygu ei bod hi'n gymharol hawdd gweld unrhyw ddyblygu.

# Canfyddiadau



Cawsom wybod am gyfanswm o 45 o blant a oedd yn destun pryder. O'r rhain, roedd 32 o blant yn bodloni digon o feini prawf ar y Rhestr Wirio Pryderon i gael eu cynnwys yn y canfyddiadau. Roedd rhai o'r plant hyn mewn grwpiau teuluol.

Mae'r ffigurau hyn yn bendant yn cynrychioli cyfran fechan o'r ffigurau gwirioneddol, yn rhannol oherwydd nad oedd Gwasanaethau Plant un Awdurdod Lleol yn barod i ddarparu data rhifol am achosion, ac yn trafod achosion mewn ffordd eithriadol o gyffredinol. Er enghraifft, gwnaed y sylw yma gan reolwr tîm yn yr awdurdod dan sylw:

*"Rwy'n credu ein bod ni'n gweld llwyth o'r achosion yma… mae'n anodd achos ein bod ni'n delio gyda chynifer o achosion, felly mae'n anodd trafod y manylion penodol".*

### Rhyw

Fel mae Tabl 3 yn dangos, nodwyd rhywfaint yn fwy o fechgyn na merched yn yr astudiaeth hon. Dyma'r tro cyntaf, mewn unrhyw astudiaeth o fasnachu plant yn y DU, i ni weld mwy o ddioddefwyr gwryw na rhai benyw. Fodd bynnag, mae'r tueddiad yma'n cyd-fynd â chanfyddiadau ymchwil flaenorol yn y DU ar fasnachu plant, sef bod nifer cynyddol o fechgyn wedi cael eu nodi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf [47].

### Oedran

Yng nghyswllt oedran y plentyn, mae'r darlun sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru yn cyd-fynd â chanfyddiadau ymchwil arall yn y DU[48]. Mae mwyafrif y dioddefwyr tua 12 a 13 oed neu'n hŷn, gyda nifer sylweddol yn 16-18 oed. Mae'r wybodaeth gyfyngedig am achosion yn dangos bod grŵp mwy o fechgyn 13-16 oed na merched, a allai awgrymu bod dioddefwyr gwryw yn dod i'r DU yn ifancach neu eu bod yn cael eu canfod yn gynharach.

Amlygodd nifer o'r ymatebwyr achosion lle roedd y person ifanc wedi dweud wrthynt ei fod o dan 18, ond ei fod wedi cael ei asesu fel oedolyn yn y lle cyntaf naill ai gan UKBA neu gan yr Awdurdod Lleol; roedd cael ei asesu fel oedolyn gan UKBA yn golygu ei fod yn cael ei letya mewn cartref amhriodol gydag oedolion nad oedd yn eu hadnabod. Mewn achosion eraill, credid bod plant wedi cael cyfarwyddyd i ddweud eu bod dros 18 er mwyn osgoi dod i gysylltiad â'r gwasanaethau statudol, er bod ymarferwyr yn 'teimlo' eu bod dipyn yn ifancach mewn gwirionedd.

### Tarddiad

Roedd y plant yn yr astudiaeth hon yn dod o amrywiaeth o wledydd yn Asia, Affrica, Ewrop a'r Dwyrain Canol, fel y gwelir yn Nhabl 4. Y ddau grŵp mwyaf o blant yn ôl eu gwlad enedigol oedd y rhai o Tsieina a Nigeria. Nid yw hyn yn adlewyrchu'r darlun cyffredinol ar gyfer poblogaethau mudol yng Nghymru lle roedd y poblogaethau mwyaf yn dod o Somalia, Pacistan ac Irac yn 2004[49]. Fodd bynnag, mae'r ffaith mai Tsieina a Nigeria yw'r gwledydd amlycaf yn yr astudiaeth hon yn cyd-fynd ag ymchwil flaenorol ar fasnachu pobl yn y DU[50].

### Ymatebion i sefyllfaoedd

Rhoddwyd rhestr o sefyllfaoedd i'r rhai oedd yn cael cyfweliad eu hystyried, a holwyd a oeddent wedi dod ar draws unrhyw achosion tebyg. Seiliwyd y sefyllfaoedd hyn ar y mathau o achosion y cafwyd hyd iddynt drwy ymchwil flaenorol[51]. Roedd mwyafrif y pedwar Awdurdod Lleol a'r rhai oedd yn gweithio yn y sector gwirfoddol wedi dod ar draws achosion tebyg neu'n union yr un fath â'r pum sefyllfa isod.

### Tabl 3 – Rhannu yn ôl Oedran a Rhyw:

| Oedran | Gwryw | Benyw | Rhyw anhysbys | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| O dan 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 5-10 | 2 | 3 | 0 | 5 |
| 10-13 | 2 | 1 | 0 | 3 |
| 13-16 | 6 | 1 | 0 | 7 |
| 17-18 | 1 | 6 | 0 | 7 |
| Anhysbys | 4 | 2 | 4 | 10 |
| **Cyfansymiau** | **15** | **13** | **4** | **32** |

### Tabl 4 – Gwlad Enedigol Plant

| Gwlad Enedigol | Nifer | Gwryw | Benyw | Rhyw anhysbys |
|---|---|---|---|---|
| Bangladesh | 4 | 3 | 1 | 0 |
| Belarws | 2 | 2 | 0 | 0 |
| Tsieina | 5+ | 1 | 4 | 0 |
| Gambia | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Irac | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Lithwania | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Nigeria | 4 | 4 | 0 | 0 |
| Pacistan | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Rwmania | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Somalia | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Twrci | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Y DU | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Fietnam | 3 | 3 | 0 | 0 |
| Anhysbys | 3 | 1 | 2 | 0 |
| **Cyfansymiau** | **32** | **16** | **14** | **2** |

**Sefyllfa 1 – Caethwasanaeth yn y cartref**

Cawsom wybod am o leiaf un achos o gaethwasanaeth yn y cartref, er bod nifer o'r ymatebwyr wedi cyfeirio at y ffaith eu bod yn gwybod bod llawer mwy o'r mathau hyn o achosion na'r rhai a gofnodwyd. Dywedodd rheolwr un sefydliad gwirfoddol: "Mae sïon bod cannoedd o blant yn cael eu maethu'n breifat yn ninas X y tu allan i'r system, a bod hynny'n aml at ddibenion domestig".

Dywedodd yr Awdurdod Lleol yn yr un lleoliad â'r asiantaeth wirfoddol a ddyfynnwyd uchod eu bod wedi dod ar draws achosion o gaethwasanaeth yn y cartref, ond eu bod wedi sylweddoli hynny'n ddiweddarach. Fel y dywedodd Rheolwr Tîm Gwaith Cymdeithasol: "mae nifer o blant wedi dod i weithio fel gweision tŷ, ac yna wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn rydym ni wedi dod i wybod amdanynt. Ond roedden nhw yno am flynyddoedd cyn i neb fod yn ymwybodol."

Crynhowyd un achos o'r fath gan reolwr o'r sector gwirfoddol:

*Rhoddodd siopwr gerllaw wybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am ferch ifanc o wlad yn Affrica. Roedd y siopwr yn pryderu bod y 'tad' yn gadael ei ferch wyth oed gartre ar ei phen ei hun. Pan ymchwiliwyd i'r achos, cafwyd bod y ferch ifanc mewn gwirionedd yn 12 a'i bod yn cael ei chadw dan glo yn ei hystafell gan ddyn nad oedd yn dad biolegol iddi. Roedd tystiolaeth o esgeulustod a chamdriniaeth emosiynol, felly darparwyd llety ar gyfer y plentyn, ac yn y pen draw cafodd orchymyn gofal llawn gan y Llys Teulu.*

**Sefyllfa 2 – Plant sydd ar goll**

Cafwyd tystiolaeth bod o leiaf chwe phlentyn a wahanwyd wedi mynd ar goll yng Nghymru. Nodweddir yr achosion hyn gan ddryswch ynghylch union fanylion y berthynas rhwng y plentyn a'r teulu ac anghrediniaeth bod modd i blant ddiflannu; fel y dywedodd un Rheolwr Gwaith Cymdeithasol ynghylch merch Tsieineaidd 16 oed;

*"...cafodd ei lletya am gyfnod byr, dwy ddim yn siŵr am faint, ond doedd hi ddim yn hir cyn iddi ddiflannu oddi ar wyneb y blaned".*

O'r chwe phlentyn y nodwyd eu bod wedi mynd ar goll, roedd rhai yng ngofal yr Awdurdod Lleol ac eraill yn byw gydag aelodau honedig o'r teulu neu ffrindiau/berthnasau cyn diflannu. Yn ôl yr wybodaeth a gawsom am yr achosion, ni chafwyd hyd i'r un o'r plant hyn, er bod ymdrechion wedi'u gwneud i ganfod eu lleoliad.

Mewn un achos a ddisgrifiwyd i ni, mae bodolaeth merch chwech oed o Somalia yn parhau'n ddamcaniaeth lwyr, gan nad oedd neb erioed wedi ei gweld.



*Y ferch hon oedd y trydydd plentyn mewn teulu un rhiant a wasgarwyd i Gymru gan UKBA. Darparwyd cartref ar gyfer un oedolyn a thri o blant, ond ni welwyd y trydydd plentyn erioed. Rhybuddiwyd yr oedolyn, pe na bai'r plentyn yn dod i'r amlwg, y byddai'n rhaid rhoi gwybod i UKBA. Dywedwyd wrth y rheolwr tai fod y plentyn wedi cyrraedd, ond bob tro y bydden nhw'n gwirio, doedd y plentyn ddim yno, a'r honiad oedd ei bod yn yr ysgol. O wirio hynny wedyn, gwelwyd nad oedd y ferch erioed wedi cael ei chofrestru yn yr ysgol. Yn y diwedd, roedd amheuon y darparwr tai mor fawr nes iddyn nhw fynd i archwilio'r eiddo, a chanfod nad oedd dillad nac eiddo yno ar gyfer y plentyn dan sylw. Bryd hynny, cyfaddefodd yr oedolyn nad ei phlentyn hi oedd y ferch a'i bod yn gofalu amdani nes i'w thad ddod i'w chasglu, er nad oedd tystiolaeth bod y plentyn wedi byw yno erioed. Ymchwiliodd yr heddlu i'r mater a derbyn cyfeiriad yn Llundain; datgelodd eu hymholiadau bod y fenyw oedd yn byw yno'n honni bod yn chwaer i'r fenyw yng Nghymru. Doedd y plentyn ddim gyda'r 'chwaer' yma yn Llundain gan fod ei 'thad', mae'n debyg, wedi mynd â hi allan o'r DU.*

**Sefyllfa 3 – Ecsbloetio Rhywiol**

Disgrifiwyd wyth achos o ecsbloetio plant yn rhywiol fasnachol yn ystod yr astudiaeth hon. Roedd mwyafrif yr achosion (chwech) yn ymwneud â merched, ond mae'r ffaith bod yr adroddiadau ynghylch cam-drin bechgyn yn rhywiol yn annigonol wedi cael ei chydnabod ers cryn amser[52]. Roedd y merched yn dod o sawl gwlad wahanol yn wreiddiol, yn cynnwys Tsieina (tair), Gambia (un), Dwyrain Ewrop (un) a Chymru (un). Mae un achos wedi arwain at gyhuddiad o Fasnachu Pobl yn erbyn nifer o bobl o Albania. Hefyd honnir mai hwn oedd yr achos cyntaf yng Nghymru i gael ei nodi yn ystod Ymgyrch Pentameter 2:

*Mae'r achos hwn yn ymwneud â merch o Lithwania, a oedd yn 17 oed pan ddaeth i'r DU, ond sydd bellach yn 18. Roedd y ferch hon eisoes yn agored i niwed ac fe'i recriwtiwyd o gartref plant yn Lithwania. Ar ryw adeg pan oedd yng Nghymru, cysylltodd y ferch hon â'r cartref a dweud nad oedd hi'n dymuno bod lle roedd hi a'i bod hi am fynd nôl. Hysbyswyd yr Heddlu yn Ne Cymru, ac ar ôl chwilio am 24 awr llwyddwyd i'w hachub hi o buteindy yn Ne Cymru. Ar y cychwyn ni allai'r ferch siarad am yr hyn oedd wedi digwydd iddi, ond roedd amheuon gan yr heddlu oherwydd nad oedd hi, wrth ffonio'r cartref, wedi rhoi'r cyfeiriad cywir, ond yn hytrach un oedd yn gyfuniad o leoliadau yng Ngogledd-orllewin Lloegr a De-orllewin Cymru, a oedd yn awgrymu ei bod hi wedi cael ei symud o gwmpas. Rhoddwyd y fenyw ifanc mewn tŷ diogel ac yn ddiweddarach datgelodd i'r Asiantaeth Troseddau Difrifol ac wedi'u Trefnu ei bod wedi dod i'r DU trwy Borthladd Dover gyda thair neu bedair merch arall yn haf 2007, ac oddi yno ei bod wedi cael ei chymryd i buteindy yng Ngogledd-orllewin Lloegr ac wedyn i un arall yn Ne-orllewin Cymru.*

**Sefyllfa 4 – Tyfu Canabis**
Roedd nifer o awdurdodau lleol yn Ne Cymru wedi cael profiad o weithio gyda bechgyn ifanc o Fietnam y cafwyd hyd iddynt mewn ffatrïoedd canabis. Soniwyd hefyd am gael hyd i blant Tsieineaidd yn byw mewn ffatrïoedd canabis. Eiddo preswyl wedi'u newid er mwyn tyfu canabis ar raddfa fawr yw ffatrïoedd o'r fath fel arfer, yng ngofal rhwydweithiau o droseddwyr. Mewn un achos, euogfarnwyd person 16 oed ar ôl cael hyd iddo mewn ffatri ganabis faestrefol:

*Roedd y person ifanc wedi cael cynnig llety gan ddau ddyn yn gyfnewid am 'ddyfrhau planhigion'. Roedd y dyn ifanc yma wedi agor y drws i'r heddlu o'i wirfodd pan oeddent yn holi o dŷ i dŷ, ac roedd yn honni nad oedd yn sylweddoli bod yr hyn oedd yn cael ei dyfu yn y tŷ yn sylwedd anghyfreithlon.*

**Sefyllfa 5 – Troseddau Stryd a Thwyll Budd-daliadau**
Mynegwyd ansicrwydd cyffredinol ynghylch Sefyllfa 5 a oedd yn disgrifio achos yn ymwneud â phlant Roma. Dywedodd llawer o ymatebwyr na fyddent yn cael clywed am y math hwn o achos oherwydd nad oeddent yn gweithio gyda dinasyddion o'r Undeb Ewropeaidd. Nododd Gwasanaethau Plant rhai Awdurdodau Lleol eu bod wedi ymwneud â theuluoedd o Ddwyrain Ewrop, ond bod hynny'n bennaf oherwydd pryderon ynghylch cam-drin yn y cartref neu geryddu plant yn gorfforol. Roedd dau o'r lleoliadau ymchwil wedi dod ar draws achos o fasnachu posib ar gyfer twyll budd-daliadau, yn cynnwys yr achos canlynol, a ddisgrifiwyd i ni yn ystod yr ymchwil:

*Cyfeiriwyd teulu at y gwasanaethau cymdeithasol gan ymwelydd iechyd a oedd yn pryderu am y ffaith bod dau blentyn yn cael eu ceryddu'n gorfforol. Pan ymchwiliodd y gwasanaethau cymdeithasol i'r mater, cawsant hyd i nifer o blant yn y tŷ, ond roedd y niferoedd yn newid yn barhaus, ac roedd yn anodd gwybod pwy oedd yn perthyn i bwy. Cychwynnodd yr ymchwiliad fel achos amddiffyn plant, gan roi peth ystyriaeth i roi'r plant yng ngofal yr awdurdod lleol. Cynhaliwyd cyfarfod strategaeth ynghylch yr holl blant dan gadeiryddiaeth rheolwr gwasanaeth yn sgîl cymhlethdod a natur y pryderon. Soniwyd am fasnachu pobl yn y cyfarfod strategaeth, a chofnodwyd hynny. Daeth i'r amlwg fod y plant yn dod o sawl cenhedlaeth. Roedd gan y fam nifer o blant o wahanol oedrannau, yn cynnwys baban a dau blentyn llawer hŷn, ac roedd gan y rheiny eu babanod eu hunain. Yn y diwedd, cyfeiriwyd dau o'r plant at CTAIL, llinell gymorth yr NSPCC, oherwydd gwybodaeth anghyson amdanynt, ond arhosodd y plant eraill gartref a mynd i'r ysgol a ddarparwyd. Ar yr un pryd, cyfeiriodd yr heddlu achos at y gwasanaethau cymdeithasol ynghylch nifer y plant Roma a welwyd yn y stryd yn golchi ceir. Sylweddolwyd eu bod yn dod o'r un teulu estynedig.*

**Enghreifftiau o fathau eraill o fasnachu pobl**
Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am achosion eraill a oedd wedi achosi pryder iddynt. Soniwyd am bum achos, yn cynnwys 14 o blant, y cafwyd hyd iddynt, neu y credwyd eu bod yn ymwneud â'r canlynol:

**Llafur Gorfod**
Credid bod nifer o blant gwryw yn byw gydag oedolion nad oeddent yn perthyn iddynt mewn siopau cludfwyd a kebab, a'r amheuaeth oedd eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer llafur gorfod.

*Mewn un achos cafwyd hyd i blentyn Bangladeshi 16 oed mewn bwyty o ganlyniad i gyrch gan yr heddlu a UKBA yn erbyn gweithwyr anghyfreithlon. Ni allai'r bachgen siarad Saesneg. Yr honiad oedd bod y teulu oedd yn berchen ar y bwyty wedi 'taro ar' y bachgen ym maes awyr Heathrow neu Gatwick ac wedi mynd ag e adre i Ganolbarth Cymru. Roedden nhw'n gwadu ei fod yn gweithio yn y bwyty, ond credir ei fod yn gwneud hynny. Mae'r bachgen yn destun ymchwiliad ar y cyd sy'n parhau gan yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, caniatawyd iddo aros gyda'r teulu yma yn ystod yr ymchwiliad.*

**Priodas Orfodol**
Yn yr astudiaeth hon, adroddwyd wrthym am dri achos o fasnachu ar gyfer priodas orfodol. Ym mhob achos, roedd y ferch wedi cael ei gorfodi i briodi dramor cyn dychwelyd i fyw yn y DU. Nid oedd y cyfranogwyr wedi canfod yr un o'r achosion hyn per se, yn hytrach roeddent wedi dod ar eu traws yn sgîl pryderon ynghylch eu babanod.

*Daeth merch o Bacistan i Gymru i fyw gyda'i modryb, nad oedd ganddi gyfrifoldeb rhiant amdani. Nid aeth i'r ysgol am ddwy flynedd o leiaf, a buon nhw'n newid cyfeiriad yn aml. Pan oedd hi tua 12 oed, anfonwyd y ferch yn ôl i Bacistan ar gyfer 'priodas a drefnwyd' a beichiogodd. Er ei bod wedi rhoi genedigaeth i faban yn 13 oed, ni wnaed atgyfeiriad ynghylch y person ifanc nes i'w baban ddioddef anaf, ac i amheuon godi nad oedd hynny'n ddamweiniol.*

# Astudiaeth Achos Fanwl



Person ifanc o Tsieina yw Dalal (nid ei henw iawn). Dywedodd Dalal wrth ei gweithiwr cefnogi yng Nghymru iddi gael ei rhoi i rieni maeth pan oedd hi'n blentyn oherwydd ei bod hi'n ferch. Yn ddiweddarach gwerthodd y rhieni maeth hi i fasnachwraig pobl yn Tsieina a'i cadwodd hi dan glo gyda llawer o ferched eraill. Wedyn trosglwyddwyd Dalal i ddyn a aeth â hi ar long i gyrchfan arall, lle cafodd ei throsglwyddo i ddyn arall. Cadwodd y dyn yma Dalal dan glo am beth amser; ni chafodd ei niweidio ganddo, ond bu'n rhaid iddi wylio fideos o blant yn cael eu curo. Daeth y dyn â hi i'r DU mewn awyren a'i rhybuddio i ddweud wrth unrhyw un a holai ei bod hi'n 21 oed, neu byddai hi'n cael ei dychwelyd i Tsieina. Pan gyrhaeddon nhw Heathrow, cuddiodd Dalal yn y toiledau nes i'r staff diogelwch ddod o hyd iddi. Roedd gan Dalal basport a oedd yn dweud ei bod hi'n 21 oed; serch hynny, roedd hi'n honni bod yn 16.

Cafodd Dalal ei thrin fel oedolyn gan UKBA a anfonodd hi i ddinas yng Nghymru lle cafodd ei rhoi mewn llety cychwynnol gan y Swyddfa Gartref. Yn fuan wedyn, mynnodd UKBA fod Dalal yn symud i ddinas arall yng Nghymru, ac fe'i rhoddwyd mewn llety gyda sawl menyw mewn oed.

Mynegodd y sefydliadau sector gwirfoddol a ddaeth i gysylltiad â Dalal bryder ynghylch pa mor ifanc yr ymddangosai, gan amcangyfrif ei bod mewn gwirionedd rhwng 15 ac 16 oed. Aseswyd oedran Dalal gan y gwasanaethau cymdeithasol, a ddaeth i'r casgliad ei bod hi dros 18; roedd asesiad meddygol dilynol yn amhendant.

Roedd yr asiantaethau sector gwirfoddol yn pryderu am ei hanes a'r ffaith ei bod hi mor agored i niwed ar y pryd. Gwnaed o leiaf tri chyfeiriad at dîm gwaith cymdeithasol yr awdurdod lleol a'r heddlu. Cynhaliwyd cyfarfod strategaeth amddiffyn plant, a chytunwyd y byddai heddwas yn ymweld â Dalal ac yn siarad â hi am ei phrofiadau. O ystyried y pryderon ynghylch yr achos, cafwyd mewnbwn gan nifer o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, yn cynnwys Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. Am ddau fis a mwy, gofynnodd y Swyddfa droeon am wybodaeth ac i'r heddlu perthnasol ymweld â hi, ond ni chafwyd ymweliad.

Yna adroddwyd bod dyn yn aros gyda Dalal yn y llety. Aeth y rheolwr tai i ymchwilio i'r mater a daeth o hyd i ddyn Tsieineaidd yn cuddio yn y cwpwrdd dillad. Honnodd Dalal ei fod yn frawd iddi, ond mae o leiaf un o'r asiantaethau gwirfoddol oedd yn ymwneud â'r achos yn credu mai ef oedd y masnachwr pobl. Yn fuan wedyn, diflannodd Dalal, ac mae hi bellach wedi'i chofnodi'n swyddogol fel person sydd ar goll.



Ers hynny, mae Comisiynydd Plant Cymru wedi ysgrifennu at yr heddlu dan sylw i ofyn am adolygiad llawn o'r achos. Dangosodd eu hymateb, yn eu barn hwy.

*"…nad oes tystiolaeth bod Dalal mewn perygl yn sgîl masnachwyr pobl na bod hynny'n wir erioed". Â'r llythyr ymlaen:*

*"…byddai mynd â hi o Heathrow i Gymru yn golygu ei bod hi'n hynod annhebygol ei bod hi mewn perygl oddi wrth fasnachwyr pobl yn y DU, ac felly ein hasesiad ni yw bod ei habsenoldeb yn fwriadol er mwyn osgoi cael ei halltudio".*

Mae achos Dalal yn amlygu llawer o'r materion allweddol a all ddylanwadu ar y gwasanaeth a roddir i blant sydd wedi cael eu masnachu. Mae'r rhain yn cynnwys effaith bod yn destun anghytundeb ynghylch oedran, diffyg cydweithio rhwng asiantaethau perthnasol, trothwyon gwahanol wrth ganfod achosion o fasnachu pobl, a'r ffaith bod statws mewnfudo plant yn cael ei ystyried yn bwysicach na'r angen am eu diogelu.

# Themâu sy'n dod i'r Amlwg



Mae plant a allai fod wedi cael eu masnachu yn eithriadol o agored i niwed. Bydd llawer ohonynt wedi profi o leiaf un math o gamdriniaeth, boed hynny'n gorfforol, yn rhywiol, yn emosiynol neu'n esgeulustod, yn aml ar lefel eithafol. Caiff plant eu treisio, eu curo, eu poenydio, eu hamddifadu o'u hanghenion sylfaenol a'u defnyddio fel caethweision. Cânt eu symud o'u gwlad enedigol i un neu fwy o wledydd newydd, gan unigolion neu gangiau sydd wedi eu twyllo neu eu camarwain. Mae'n hanfodol felly, pan gânt eu hadnabod, eu bod yn derbyn gofal ac amddiffyniad llawn y gwasanaethau statudol. Amlinellir hyn yn glir gan LlCC:

*"Mae dyletswydd ar bob asiantaeth i gydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a fasnachwyd i mewn i'r DU ac o fewn y wlad, i ddarparu'r un safon o ofal ag sydd ar gael i unrhyw blentyn arall yn y DU [ein pwyslais ni]"* [53].

## Diffyg adnabyddiaeth

Yn yr astudiaeth hon, disgrifiwyd nifer o achosion lle roedd methu ag adnabod person ifanc fel dioddefydd posib yn brif bryder. Mae hyn yn croestorri pob math o ecsbloetio a bod yn agored i niwed, ac roedd yn digwydd yn yr holl ardaloedd daearyddol lle cynhaliwyd cyfweliadau. Yn ôl un rheolwr o'r sector gwirfoddol:

*"…dyna'r sefyllfa gyffredinol yng Nghymru, hynny yw nad yw pobl yn sylwi arnyn nhw. Rwy'n eu galw nhw'n boblogaeth anweledig mewn poblogaeth sydd eisoes yn guddiedig oherwydd nad yw pobl yn gweld y plant hyn. Neu nid y bobl iawn".*

Mynegwyd syndod gan ymarferwyr, yn enwedig yn y sector gwirfoddol, mewn achosion lle nad oedd y gwasanaethau'n gwybod am blant ac wedyn yn rhyfeddu pan fyddai gwybodaeth newydd neu gyfarfyddiad annisgwyl yn datgelu eu bodolaeth. Er enghraifft, disgrifiodd un ymarferydd sector gwirfoddol sefyllfa yr oedd hi'n teimlo oedd yn cynrychioli digwyddiad nodweddiadol yn ei hardal:

*Rhoddwyd caniatâd diderfyn i aros yn y DU i deulu o wlad yn Affrica, yr oedd y gwasanaethau wedi bod yn gweithio gyda nhw ers peth amser*[54]*. Roedd ganddyn nhw dri o blant, ond fe wnaethon nhw ofyn am dŷ i bedwar o blant. Honnodd y teulu fod ganddyn nhw bedwerydd plentyn, merch 12 oed. Ond yn wahanol i'r plant eraill yn y teulu, doedd hi erioed wedi bod i'r ysgol nac wedi cael ei hintegreiddio o gwbl, ac roedd bob amser yn cael ei chadw i mewn. Yn dilyn ymchwiliad, y casgliad oedd bod perthynas rhwng y plentyn a'r teulu, ond mae'r rhesymau dros ei chadw'n guddiedig yn parhau'n anhysbys.*

Mae'r achos hwn, ymhlith eraill y clywsom amdanynt, yn amlygu pa mor hawdd yw cadw plentyn yn guddiedig yng Nghymru, hyd yn oed pan yw gweddill y teulu yn hysbys i ddarparwyr gwasanaethau statudol a gwirfoddol. Mae plant sy'n parhau'n guddiedig mewn perygl sylweddol.

## Plant Cuddiedig

Yn achos rhai o'r achosion y deuwyd ar eu traws, nid oedd yn hysbys sut daeth y plentyn i mewn i'r DU. Yn wir, mae'r diffyg gwybodaeth ei hun yn destun pryder. Soniwyd am blant yn 'ymddangos' yng Nghymru, gyda rhai ohonynt yn benodol yn dymuno aros mewn tref arbennig lle nad oedd ganddynt gysylltiadau teuluol i bob golwg. Roedd eraill yn cael eu gollwng yn nhŷ unigolyn gan ddieithryn, fel yn yr achos isod:

*Aeth dyn o Pacistan, Mr X, â dwy ferch i'r ysgol feithrin i'w cofrestru, gan honni bod y ddwy yn ferched iddo. Roedd Mr X yn honni bod un plentyn yn dair a hanner oed a bod y llall ychydig o dan dair oed. Roedd yr ysgol yn pryderu rhywfaint, gan nad oedd y gwahaniaeth oedran rhwng y ddau blentyn ond yn saith mis. Gan na ddaeth y plentyn tair a hanner i'r feithrinfa erioed, cyfeiriwyd yr achos at y Gwasanaethau Cymdeithasol.*

*Bythefnos ar ôl yr atgyfeiriad, daeth Mr X i Uned Sgrinio Lloches Croydon gyda'r plentyn hynaf, a honni ei bod hi'n ferch iddo. Yn ddiweddarach, newidiodd Mr X ei stori i ddweud mai nith iddo oedd y ferch. Roedd Mr X am ychwanegu ei henw at ei hawliad lloches, er mai ei statws lloches cyfredol oedd bod ei hawliau i apelio wedi dod i ben. Holwyd Mr X ynghylch pryd a sut roedd y plentyn yma wedi ymuno â'r teulu. Yr esboniad a roddwyd oedd bod gwryw gwyn nad oedd yn ei adnabod wedi gollwng y plentyn wythnos yn gynharach. Dywedodd y dyn wrth Mr X ei bod hi'n nith iddo a bod y ferch wedi bod yn teithio gyda'i theulu, ond eu bod wedi cael eu hatal yn Ffrainc, a'i bod hi wedi llwyddo i gyrraedd y DU ar ei phen ei hun. Roedd Mr X yn fodlon ar yr esboniad hwn a derbyniodd gyngor y dylai fynd â'r plentyn i Uned Sgrinio Lloches Croydon. Mae'r stori hon yn amlwg yn gwrthddweud y ffaith bod y plentyn wedi cael ei chofrestru yn yr ysgol rai wythnosau'n flaenorol. Roedd ffactorau eraill (megis y ffaith bod y ferch yn edrych yn hŷn na'r oedran a roddwyd ac anghysondebau yn stori Mr X) yn destun pryder i'r Heddlu Metropolitan, a phenderfynwyd rhoi'r plentyn mewn gofal maeth. Yn ystod ei chyfnod yno, mae'r ferch wedi datgelu camdriniaeth rywiol a chorfforol gan Mr X a'i wraig. Arestiwyd Mr X am fasnachu plant at ddibenion twyllo gan yr Heddlu Metropolitan, ac mae ymchwiliad yr heddlu'n parhau.*

## Plant sy'n byw gydag oedolion nad ydynt yn eu hadnabod

Hyd yn oed wrth ddod o hyd i blant a oedd yn byw gydag oedolyn nad oedd yn berthynas, nid oedd eu gofalwyr yn cael eu hasesu'n awtomatig, fel y dylent. Disgrifiwyd nifer o sefyllfaoedd i ni lle caniatawyd i oedolion nad oeddent yn perthyn i'r plentyn barhau i ofalu amdanynt ar ôl i'r gwasanaethau statudol ymwneud â'r achos, heb unrhyw fath o asesiad. Er enghraifft, yn ôl rheolwr sefydliad gwirfoddol, yn achos un plentyn o Dwrci:

*"Roedd y teulu wedi cael eu halltudio ac wedyn daeth rhywun i orsaf yr heddlu a dweud y bydden nhw'n mynd â'r plentyn a gadawodd y gwasanaethau cymdeithasol iddyn nhw wneud hynny. Eto, siop kebabs oedd honno…"*

Mewn achos arall, cafwyd hyd i blant mewn ffatri ganabis yn ystod cyrch. Yn ddiweddarach, cyrhaeddodd 'modryb' o Lundain a dweud y byddai hi'n mynd â'r plant adref gyda hi. Cytunwyd ar hynny, er na wiriwyd ei haddasrwydd fel gofalwr.

Mae rheoliadau clir ar gyfer asesu gofalwyr yng Nghymru, fel y nodir yn y Rheoliadau Maethu Preifat[55]. Dylai oedolion nad ydynt yn perthyn i blentyn, ond sy'n bwriadu gofalu amdanyn nhw am fwy na 28 diwrnod, fod yn destun asesiad maethu preifat[56]. Gwnaeth rhai o'r bobl a fu'n cymryd rhan yn yr astudiaeth hon hi'n gwbl glir eu bod nhw'n teimlo bod safon ddwbl ar waith, gyda phlant nad oeddent yn ddinasyddion yn derbyn triniaeth wahanol i ddinasyddion. Amlygwyd hyn gan un rheolwr yn y sector gwirfoddol:

*"…ac fe wedais i, wel, tase'r plentyn yn dod o Brydain a bod rhywun yn troi i fyny ac yn dweud bydden nhw'n mynd â'r plentyn, fyddech chi'n gadael iddyn nhw wneud hynny heb unrhyw wiriadau? Ble oedd yr asesiad?*

Mae plant a wahanwyd eisoes yn agored i niwed; mae byw gydag oedolion sydd heb gael eu hasesu'n briodol gan Wasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol yn cynyddu'r risgiau i'r plant yma.

## Troseddoli plant

Mae tystiolaeth gynyddol yn Lloegr i awgrymu bod plant ifanc o Fietnam, bechgyn fel arfer, yn cael eu masnachu i helpu gyda thyfu canabis[57]. Mae tyfu canabis gartref ar gynnydd. Bu nifer o gyrchoedd ar y 'ffatrïoedd canabis' hyn yng Nghymru; yn 2007, nododd Heddlu Gwent 53 eiddo oedd yn cael eu defnyddio i dyfu canabis, cynnydd o bedair gwaith y nifer yn 2006[58]. Gwaetha'r modd, ni lwyddwyd i ganfod faint o blant, os o gwbl, y cafwyd hyd iddynt yn ystod y cyrchoedd hyn gan yr heddlu.

Soniwyd wrthym am sawl achos lle cafwyd hyd i blant mewn ffatrïoedd canabis ond lle na sylweddolwyd eu bod yn ddioddefwyr masnachu. Roedd o leiaf tri ohonynt wedi

cael eu cyhuddo o droseddau yn ymwneud â thyfu canabis o dan Adran 6 o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, ac roeddent wedi dod i sylw'r gwasanaethau cymdeithasol trwy atgyfeiriad o'r Tîm Troseddau Ieuenctid. Yn ôl Gwasanaeth Erlyn y Goron, ni ddylai plant gael eu troseddoli am weithgareddau y maent wedi cael eu gorfodi i'w cyflawni. Mae'r canllawiau i erlynwyr yn gwneud hynny'n gwbl eglur:

*"Where there is clear evidence that the youth has a credible defence of duress, the case should be discontinued on evidential grounds. Where the information concerning coercion is less certain, further details should be sought from the police and youth offender teams, so that the public interest in continuing a prosecution can be considered carefully"*[59].

### Perthynolaeth diwylliannol

Cyfeiriwyd at yr hyn a ddysgwyd o ymchwiliad Victoria Climbié sawl gwaith, gan nodi ei fod yn amlygu'r angen am arfer diwylliannol sensitif. Mewn rhai sefyllfaoedd a ddisgrifiwyd i ni, ni weithredwyd oherwydd awydd i osgoi sarhau etifeddiaeth ddiwylliannol rhywun. Disgrifiwyd ymddygiad neu arferion arbennig i ni fel rhai 'o darddiad diwylliannol' ac felly nid oedd y gwasanaethau'n ymyrryd yn llawn er gwaethaf pryderon ynghylch ecsbloetio. Credid felly 'nad oedd yn anghyffredin' i blant Roma olchi ceir, neu i ferched o Bacistan gael eu priodi a geni plant yn ifanc iawn, neu i fechgyn o Fangladesh fyw gyda dieithriaid mewn siop gludfwyd.

Mewn tri achos o leiaf, nid ymchwiliwyd i honiadau ynghylch ecsbloetio rhywiol oherwydd bod y drosedd wedi digwydd dramor. Yn achos un ferch, ni wnaed atgyfeiriad ynghylch y ffaith ei bod wedi rhoi genedigaeth yn 13 oed, gan y credid bod y baban wedi cael ei genhedlu ym Mhacistan, *"lle nad yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn berthnasol"* yn ôl un cyfranogwr o'r BDPLl. Ble bynnag y digwyddodd y cenhedlu, dylasai'r plentyn yma fod yn destun gweithdrefnau amddiffyn plant yn sgîl natur ddifrifol y drosedd yn y DU. Mae'r sefyllfa'n cael ei nodi'n glir yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003:

"*Sexual activity with a child under 13 is never acceptable and that – regardless of the circumstances – children of this age can never legally give their consent. All penetrative sex of a child under 13 will automatically be classified as rape, with a maximum penalty of life in prison"*[60].

Heb sôn am y pryderon ynghylch treisio, roedd pryderon hefyd ynghylch priodas orfodol a'r ffaith bod y plentyn yma yn y DU heb neb i fod yn gwbl gyfrifol amdani. Mae'r diffyg ymateb amddiffyn plant yn yr achos hwn i drosedd o drais yn erbyn y ddeddf yn codi'r cwestiwn: fyddai'r ymateb wedi bod yn wahanol petai'r plentyn yn un o ddinasyddion y DU?

Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn egluro, er bod angen i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant fod yn sensitif i anghenion a chredoau diwylliannol plant a theuluoedd, na ddylid defnyddio arferion diwylliannol byth i gyfiawnhau peidio â gweithredu. Mae perthynolaeth diwylliannol, lle bernir bod pob arfer diwylliannol yn dderbyniol, yn mynd yn groes i'r ddyletswydd i ymyrryd os gallai plentyn fod mewn perygl yn sgîl y credoau neu'r arferion hyn. Cyflwynir y sefyllfa yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, Adran 1.2.4:

*"Professionals should guard against myths and stereotypes, whether positive or negative, and anxiety about being accused of oppressive or discriminatory action should not prevent the necessary action to be taken to safeguard a child".*



### Symud plant i mewn i Gymru

Soniodd nifer o'r rhai a gafodd gyfweliad eu bod wedi clywed am blant yn dod i mewn i Gymru naill ai trwy Iwerddon a'r porthladdoedd môr neu drwy gael eu gollwng o gefn lorïau ar draffordd yr M4 rhwng Casnewydd ac Abertawe. Ni chafwyd fawr ddim tystiolaeth o achosion i gefnogi'r farn gyffredin hon yn ystod y gwaith ymchwil. Yn yr astudiaeth hon, y darlun a welwyd oedd diffyg gwybodaeth am daith plant i mewn i Gymru. Yn amlach na pheidio, nid oedd yn hysbys pam roedd plentyn wedi cyrraedd lleoliad penodol, o ble roedd wedi dod, a sut roedd wedi cyrraedd yno.

### Porthladdoedd Môr

Mae gan Gymru bedair prif borthladd ar y môr: Caergybi, Abergwaun, Penfro ac Abertawe. Mae gwasanaethau fferi ym mhob un ohonynt yn ôl ac ymlaen i Weriniaeth Iwerddon neu Ogledd Iwerddon. Roedd peth tystiolaeth bod gweithdrefnau diogelu'n cael eu rhoi ar waith gan yr heddlu yn y porthladdoedd. Yn ôl y rhai a gafodd gyfweliad, roedd o leiaf tri achos posib wedi cael eu nodi mewn porthladdoedd a'u cyfeirio at yr Awdurdodau Lleol.

Nododd heddlu yn y porthladdoedd dair her benodol yng nghyswllt diogelu plant sy'n dod i mewn i Gymru ar fferi: diffyg dogfennau teithio, gofynion mynediad gwahanol i Weriniaeth Iwerddon, a diffyg presenoldeb UKBA yn y porthladdoedd.

Yr her gyntaf yw nad oes angen pasbort i deithio i Gymru o Weriniaeth Iwerddon.

Yn ôl UKBA, mae'r trefniadau o dan y cytundeb 'Ardal Deithio Gyffredin' rhwng y DU a Gweriniaeth Iwerddon yn golygu nad oes rhaid i rywun sy'n cyrraedd Cymru o Iwerddon ar y fferi gario prawf adnabod na phrofi pwy ydynt:

*"a person who has been examined for the purpose of immigration control at the point at which he entered the area does not normally require leave to enter any other part of it"*[61].

Fel y dywedodd un heddwas:

*"Y broblem wrth adnabod teithwyr cyhoeddus yw bod modd i chi fwcio fferi a does dim angen i chi ddarparu prawf adnabod wrth fwcio nac wrth gyrraedd. Gallech ffugio bod yn rhywun arall wrth wneud hynny. Felly gallech gael pobl heb gysylltiad sy'n rhannu'r un enw. O dan y gyfraith, mae hawl gennym ni i wirio, ond nid yw prawf adnabod yn hanfodol".*

Yr ail her yw canfyddiad yr heddlu bod y llwybr yma i mewn i'r DU trwy Weriniaeth Iwerddon yn cael ei ddefnyddio oherwydd ei fod yn haws dod i Weriniaeth Iwerddon o'r tu allan i'r UE ac yna casglu dogfennau ffug. Mewn un achos:

*Daeth tri bachgen ifanc o Nigeria i Gymru trwy borthladd môr gyda bachgen 17 oed a oedd i'w weld yn eu hebrwng. Roedden nhw wedi teithio ar y fferi o Iwerddon, ac wedi hedfan trwy Efrog Newydd i Ddulyn o Nigeria. Dywedodd y plant eu bod wedi talu am gael eu cludo i'r DU i gael addysg, eu bod yn perthyn i'r bachgen 17 oed, a'u bod i aros gydag 'ewythr' yn y DU. Yn Iwerddon, roedden nhw wedi aros gyda 'modryb'. Yn sgîl anghysondebau yn eu storïau a'r ffaith y sylwyd ar y bachgen 17 oed o'r blaen yn cyrraedd gyda phlant eraill, rhoddwyd y tri bachgen o Nigeria yng ngofal yr awdurdod lleol.*

Y drydedd broblem yw nad oes gan UKBA ar hyn o bryd bresenoldeb parhaol mewn unrhyw borthladd môr. Yn aml dim ond dau heddwas sy'n gwirio pawb sy'n cyrraedd, a gall hynny olygu dros 300 o bobl ar bob fferi, gyda sawl fferi'n hwylio bob dydd. Dim ond rhai o'r mordeithiau sy'n derbyn sylw gan UKBA; soniwyd am ffigur o 20%, er bod ganddynt linell ffôn 24 awr y gall yr heddlu ei defnyddio. Ni lwyddwyd i wirio'r wybodaeth hon gyda UKBA eu hunain. Yn amlwg, po leiaf o staff sy'n bresennol, hawsaf yw hi i fasnachwyr posib a'u dioddefwyr lithro drwy'r rhwyd.

## Maes Awyr

Mae gan Gymru faes awyr rhyngwladol yng Nghaerdydd. Yn ôl heddwas sy'n gweithio yn y maes awyr, ni fu amheuon bod achosion o fasnachu plant yn digwydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Gallai hynny fod oherwydd cyrchfannau'r awyrennau uniongyrchol i'r maes awyr ac oddi yno ar hyn o bryd, gan fod y mwyafrif ohonynt yng Ngorllewin Ewrop. Mae hefyd awyrennau uniongyrchol o Ddwyrain Ewrop, ond gan nad oedd UKBA yng Nghymru ar gael ar gyfer cyfweliad, nid ydym yn gwybod a ydyn nhw'n targedu'r rheiny'n benodol. Nid oes awyrennau uniongyrchol o Affrica nac Asia, er bod modd teithio o un o'r cyfandiroedd hynny trwy faes awyr rhyngwladol arall.

## Llwybrau eraill i mewn i Gymru

Ni chafwyd hyd i dystiolaeth benodol yn ystod yr astudiaeth hon i awgrymu bod plant yn cael eu gollwng yn rheolaidd o loriau ar neu ger yr M4. Yn yr achosion lle roedd gwybodaeth am y pwynt mynediad i'r DU yn hysbys, roedd mwyafrif y plant wedi dod i mewn trwy Dde-ddwyrain Lloegr, naill ai trwy Dover, Heathrow neu Gatwick. Yn achos rhai plant roedd yn hysbys eu bod wedi teithio i Gymru trwy rannau eraill o'r DU ond roedd yn aneglur ai Cymru oedd y cyrchfan terfynol a fwriadwyd. Mae angen gwneud gwaith pellach i ganfod pam daeth y plant hyn i Gymru, oedd hynny'n fwriadol neu ar hap, a sut y bu iddyn nhw deithio yma.

## Nid mater trefol yn unig

Un o ganfyddiadau allweddol yr astudiaeth hon yw bod plant sydd wedi dioddef cael eu masnachu wedi cael eu canfod ledled Cymru, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig y tu allan i Dde-ddwyrain Cymru. Roedd hyn yn gyferbyniad llym i farn llawer o'r rhai a gafodd gyfweliad bod masnachu plant wedi'i gyfyngu i ardaloedd trefol. Roedd nifer y plant a wahanwyd oedd yn byw gydag oedolion nad oeddent yn eu hadnabod mewn siopau cludfwyd yn destun pryder mewn ardaloedd trefol a gwledig. Fel y dywedodd un ymatebydd o BDPLl:

*'mae llwyth o siopau kebab yma, dydyn ni ddim yn gwybod pwy fyddai'n gweithio ynddyn nhw, dwy ddim yn credu bod hynny byth wir yn cael sylw'.*

Hefyd cafwyd hyd i achosion lle'r oedd amheuon ynghylch ecsbloetio rhywiol a masnachu ar gyfer priodas orfodol y tu allan i Dde-ddwyrain Cymru.

## Ymwybyddiaeth ac ymatebion

Thema gyson ar hyd yr astudiaeth yw'r trafferthion mae ymarferwyr yn eu hwynebu wrth geisio gwybod a yw plentyn wedi cael ei fasnachu. Mae hyn yn tarddu o anghysondeb, ar lefel bersonol a sefydliadol, yn yr agwedd at fasnachu, gwybodaeth a'r ymatebion o ran arfer.

## Agweddau

Mae derbyn y gall masnachu plant ddigwydd yn yr ardal leol yn hanfodol i'w ganfod. Mewn rhai ardaloedd gall hynny olygu newid meddylfryd o ddiwylliant o anghrediniaeth i sefyllfa lle derbynnir yn llawn bod masnachu plant yn digwydd yn lleol. Ym marn un gweithiwr cymdeithasol *"Mae'n bwysig derbyn bod y pethau yma'n gallu digwydd"*, a phwysleisiodd cyfranogwr o'r sector gwirfoddol yr angen am *"herio'r diwylliant o anghrediniaeth"*.

Mae grŵp ymarferwyr aml-asiantaeth sy'n cyfarfod unwaith y mis i edrych ar achosion yn un o'r lleoliadau ymchwil (gweler Atodiad 6 am ragor o fanylion). Ymddengys bod strwythur ffurfiol o'r fath yn gweithio'n dda iawn yn yr ardal benodol hon, ac mae'n arwydd bod yr ardal hon wedi ymchwilio i nifer o achosion posib. Ar ben hynny, dangosodd yr holl gyfranogwyr o'r ardal hon lefel nodedig o gysondeb wrth ddisgrifio achosion a oedd yn destun pryder; ni welwyd hynny mewn unrhyw un o'r tair ardal arall. Yn ôl y cyfranogwyr, mae patrwm ffurfiol y grŵp wedi paratoi'r ffordd ar gyfer gwell cyfathrebu rhwng yr aelodau. Fodd bynnag, ymarferwyr sy'n arwain y grŵp hwn, ac mae'n aneglur a yw'r themâu, y tueddiadau a'r materion sy'n destun pryder a ddaw i'r amlwg trwy'r grŵp yn hysbys i reolwyr canol a lefel uwch Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol.

Mae lleoliad ymchwil arall wedi sefydlu ei brotocol ei hun ar gyfer Masnachu Plant (gweler Atodiad 6), a oedd yn offeryn defnyddiol ym marn yr ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol, ochr yn ochr â goruchwyliaeth briodol, wrth orfod ymateb i achosion lle roedd amheuaeth.

Yn gyffredinol teimlid ei fod yn beth da bod gweithiwr arbenigol oedd â gwybodaeth yn y maes yn gweithredu o fewn sefydliad. Mae gan y Gwasanaethau Plant mewn tri o'r pedwar awdurdod lleol a gafodd eu cyfweld unigolion sydd â'r math yma o rôl arbenigol, fel sydd gan nifer o'r sefydliadau sector gwirfoddol a heddlu Cymru. Eglurodd un rheolwr yn y sector gwirfoddol bwysigrwydd hyder ymarferwyr yn eu rôl:

*"... mae fel rhoi caniatâd i bobl wneud yr asesiad yna, oherwydd bod pobl yn teimlo'n nerfus iawn am y peth. Mae'r un fath gyda phlant a fasnachwyd ac ecsbloetio rhywiol, yn debyg iawn, … dyw pobl ddim yn teimlo'n hyderus, dydyn nhw ddim yn teimlo bod ganddyn nhw'r sgiliau, dydyn nhw ddim yn teimlo bod ganddyn nhw'r wybodaeth ac felly dyw rhywbeth allai fod yn amlwg iawn i chi a fi ddim yn amlwg iddyn nhw ac mae angen iddyn nhw gael yr hyder yna i ddweud ie, os rhowch chi'r cyfan yma at ei gilydd…"*

Yn ogystal â diffyg hyder, nodwyd rhesymau eraill dros wrthod cydnabod bod masnachu plant yn digwydd. Mynegodd un cyfranogwr bryder nad yw pobl eisiau meddwl am fasnachu plant gan ei fod yn ormod o sioc iddynt ac yn rhy annhebygol. Barn arall oedd y gallai staff ddewis peidio â'i gydnabod ar lefel ymwybodol gan eu bod eisoes yn teimlo'n rhy brysur i ddelio gyda rhywbeth newydd.

## Gwybodaeth am fasnachu pobl

Dywedodd mwyafrif y cyfranogwyr eu bod yn gobeithio y byddai staff yn eu hasiantaeth yn gwybod rhywbeth am fasnachu pobl, ond bod lle i wella o hyd. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, roedd yn eglur bod masnachu pobl yn sicr yn hysbys ac ar y 'radar'. Roedd paratoi ar gyfer Operation Pentameter 2 (P2) hefyd wedi cynyddu ymwybyddiaeth pobl, gydag o leiaf un o'r gwasanaethau plant yn y pedwar awdurdod lleol yn sôn eu bod wedi briffio'r staff ar brotocolau gweithredu P2. Nododd un rheolwr tîm gwaith cymdeithasol:

*"Rwy'n credu … ei fod yn fater sy'n cynyddu o hyd i ni, oherwydd bod mwy a mwy o blant yn dod i'n sylw, ac mae'n fater o fod yn ymwybodol o hynny..."*

Fodd bynnag, y tu allan i Dde-ddwyrain Cymru, ymddengys bod yr wybodaeth am fasnachu pobl yn elfennol iawn. Yr hyn ddaeth i'r amlwg o'r data cyfweliadau oedd gwybodaeth gyfyngedig am y materion sy'n effeithio ar blant a wahanwyd, sydd i lawer o'r ymatebwyr yn gysylltiedig â'r ffaith nad ydynt yn dod ar draws llawer o blant a wahanwyd. Fel y dywedodd un cyfranogwr o BDPLl:

*"Y drafferth gydag e [masnachu plant] yn X yw mai fesul tipyn rydyn ni'n dod ar ei draws, felly does dim cyfle iawn i ddatblygu sgiliau ac arbenigedd. Neu os ydyn nhw'n cael eu datblygu, mae'r dysgu wedi cael ei anghofio erbyn i'r achos nesaf godi. Dyna pam byddai'n ddefnyddiol cael 'arbenigwr' i'w holi ynghylch y math yma o achosion."*

Yn ardal un awdurdod lleol, roedd y diffyg gwybodaeth hwn yn golygu bod y gweithiwr cymdeithasol yn ceisio cael gwybod am ei gyfrifoldebau i blentyn oedd yn ceisio lloches trwy'r rhyngrwyd, ac yna'n rhannu'r wybodaeth honno gyda'i gydweithiwr. Soniodd gweithiwr i asiantaeth sector gwirfoddol hefyd am bryderon tebyg, gan nodi bod rhaid iddi ddweud wrth weithwyr cymdeithasol (oedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd heblaw'r rhai gwasgaru) beth i'w wneud ynghylch plant a wahanwyd; mynegodd ei rhwystredigaeth ynghylch hyd yr amser oedd yn angenrheidiol i fynd trwy broses addysgu gyda phob gweithiwr cymdeithasol newydd.

Dywedodd sawl un a gafodd gyfweliad fod lefelau'r wybodaeth yn debygol o amrywio yn ôl union rôl a swyddogaeth yr unigolyn yn y sefydliad. Credid y byddai gan weithwyr cymdeithasol mewn gwasanaethau rheng flaen, megis timau lloches arbenigol a dyletswydd ac asesu, fwy o

wybodaeth a phrofiad, ac felly fwy o allu i sylweddoli pryd roedd masnachu plant yn digwydd na gweithwyr yn y timau tymor hwy.

### Sbarduno Pryder

Wrth ddisgrifio achosion i ni, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ar ba sail roeddent yn dechrau pryderu. Yn amlach na pheidio, sbardunwyd pryder gan y ffaith 'nad oedd rhywbeth yn teimlo'n iawn' neu drwy 'deimlad greddfol', a oedd yn peri iddynt gredu bod mwy yn digwydd nag yr oeddent wedi cael clywed amdano. Roedd dibyniaeth gychwynnol ar 'deimladau' felly yn digwydd ar draws y tri grŵp y buom ni'n eu cyfweld. Fodd bynnag, y canfyddiad oedd bod cam nesaf cadarnhau eu pryderon yn llawer anoddach.

Mae'r dangosyddion masnachu pobl, megis y rhai a restrir yng nghanllaw LlCC (2008), yn manylu ar y ffactorau a allai fod yn arwydd o risg i blentyn. Roedd rhai ymatebwyr yn ymwybodol o'r dangosyddion hyn, ond nid oedd eraill yn gwybod amdanynt o gwbl. Soniodd nifer o ymatebwyr am ffactorau risg penodol yr oeddent wedi eu datblygu, naill ai o brofiad o achosion penodol neu o'r hyn roeddent wedi'i ddysgu mewn sesiynau briffio a hyfforddiant. Mae'r dangosyddion hyn yn cynnwys:

- Dynion sengl yn dod â phlant i mewn i'r wlad
- Cyrraedd ar adegau tawel, e.e. gwyliau banc/yn y nos
- Tueddiadau amheus o ran dulliau bwcio a phatrymau teithio
- Yr un unigolion yn cwrdd â phlant yn y porthladdoedd mynediad
- Plant tawel/anhapus mewn porthladdoedd mynediad
- Plant nad ydynt yn gwybod beth yw eu cyfeiriad na ble maent
- Storïau anghyson
- Diffyg tystiolaeth e.e. dim papurau ac ati i gefnogi honiad bod plentyn yn perthyn i'r teulu
- Plentyn yn cyrraedd ar adeg wahanol i weddill y teulu.

Mae canllaw LlCC yn egluro nad oes rhaid bod yn gwbl sicr bod y plentyn yn dioddef masnachu i gyfiawnhau cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol:

*"Mewn llawer o achosion, gall fod angen i ymarferwyr weithredu ac ymateb i achosion lle maent* ***yn amau*** *[ein pwyslais ni] y gallai plentyn fod wedi cael ei fasnachu"* [62].

### Ymatebion Arfer

Roedd ansicrwydd ynghylch a oedd sefyllfa'n achos o fasnachu pobl neu beidio'n effeithio'n uniongyrchol ar y cyfeiriadau at y gwasanaethau cymdeithasol. Mynegodd rheolwr sector gwirfoddol ofn ynghylch cyflwyno atgyfeiriad di-sail:

*"Mae'n beth anodd iawn i'w adnabod. Mae'n anodd iawn, oherwydd os ydych chi'n mynd ati i wneud honiad, byddai rhai pobl yn amharod iawn i wneud honiad heb dystiolaeth bendant, ac efallai na fyddai llawer o bobl yn barod i weithredu ar sail eu 'teimlad greddfol' ".*

Yn gysylltiedig â'r teimlad hwn roedd y farn gyffredin a fynegwyd yn y sector gwirfoddol nad oedd eu pryderon ynghylch masnachu posib yn cael eu cymryd o ddifri gan y gwasanaethau statudol. Adroddwyd bod gwybodaeth am achosion yn cael ei hanwybyddu, gan arwain at atgyfeiriadau lluosog. Roedd gweithwyr yn aml yn teimlo bod rhaid iddynt hwy wneud yr holl waith ymchwilio cyn cyflwyno atgyfeiriad er mwyn darparu sylfaen ddigon cadarn o dystiolaeth ar gyfer eu pryderon.

Roedd ymatebion y gweithwyr cymdeithasol yn amrywio'n fawr. Teimlai rhai fod rhaid cael tystiolaeth o bryder i gyfiawnhau ymateb amddiffyn plant i atgyfeiriad. Yn ôl un ymatebydd o BDPLl:

*"... mae angen iddi fod yn glir bod sail cadarn ar gyfer amheuaeth, nid dim ond sïon..."*

Teimlai eraill y dylid ymchwilio i bob pryder, beth bynnag oedd y dystiolaeth gychwynnol. Teimlai un rheolwr gwaith cymdeithasol:

*"Byddai'n well gennym ni fod yn anghywir na pheidio â gweithredu ar rywbeth."*

Mae gan blant sy'n dioddef masnachu hawl i gael eu hamddiffyn; sefydlir hyn yn glir yng nghanllaw LlCC, y CHP, a'r Nodau Craidd yng Nghymru. Hyd yn oed os yw'r pryderon yn annelwig neu heb eu cadarnhau, fel sy'n digwydd mor aml yn achos masnachu plant, rhaid cychwyn ar y broses o asesu a rhoi sylw digonol i angen y plentyn am amddiffyniad.

Mae canllaw LlCC ar fasnachu pobl yn sefydlu'r gweithdrefnau o'r atgyfeirio i'r ymchwiliad os amheuir bod plentyn wedi cael ei fasnachu. Yn arbennig, mae'n pwysleisio'r angen am ymateb aml-asiantaeth, p'un a fernir bod yr achos yn blentyn mewn angen neu'n fater diogelu. Mae'r mecanweithiau ar gyfer cydweithio a amlinellwyd yn y canllaw '*Diogelu Plant a allai fod wedi cael eu Masnachu*' yn deillio o'r strwythurau ehangach ar gyfer gwaith rhyng-asiantaeth a sefydlwyd yn Neddf Plant 2004 a *Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* (2007).

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn deall, petaent yn amau bod plentyn wedi cael ei fasnachu, y byddent yn defnyddio Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Fel y dywedodd un Rheolwr Gwaith Cymdeithasol:

*" cynnal cyfarfod strategaeth ac Adran 47* [63] *fel yn achos plant sy'n ddinasyddion; defnyddio'r un gweithdrefnau ar hyd y broses, dim byd ar wahân."*

Disgrifiodd y rhai a gafodd eu cyfweld y broses o gyfeirio at dîm gwaith cymdeithasol yr awdurdod lleol yn ofalus iawn, a hefyd y ffaith eu bod yn disgwyl y byddai ymchwiliad yn cael ei gynnal o dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989 a chyfarfod strategaeth. Yn wir, defnyddiwyd y broses hon mewn nifer o'r achosion a ddisgrifiwyd i ni. Mewn tri achos o leiaf mewn dwy ardal wahanol, cynullwyd Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant i ystyried tystiolaeth o niwed sylweddol, er nad ychwanegwyd enw unrhyw blentyn at y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mewn rhai ardaloedd, nodwyd petai pryderon ynghylch masnachu plant, y byddai uwch reolwr yn dod i'r gynhadledd achos yn ogystal.

# Argymhellion



Gofynnwyd i bawb a gafodd gyfweliad pa welliannau yr hoffen nhw eu gweld yng nghyswllt masnachu plant, a hynny o fewn eu hasiantaeth eu hunain a ledled Cymru. Mae awgrymiadau'r 41 a gafodd gyfweliad wedi cael eu crynhoi yma, ac wedi cyfrannu at Argymhellion Comisiynydd Plant Cymru, a fydd yn cael eu monitro gan y Comisiynydd yn unol â'i bwerau statudol.

## Materion arfer

### Hyfforddiant

Soniodd bron pob un o'r cyfranogwyr fod angen rhagor o hyfforddiant am fasnachu plant a phlant a wahanwyd yn gyffredinol. Nid oedd llawer ohonynt wedi gallu cyrchu hyfforddiant o'r fath o gwbl.

### A1. Argymhelliad Comisiynydd Plant Cymru

O fewn un flwyddyn i gyhoeddi'r adroddiad hwn, bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal archwiliad o'r hyfforddiant perthnasol sydd ar gael ar hyn o bryd i ymarferwyr ac yn ystyried darparu cyllid i weinyddu rhaglen hyfforddi Cymru gyfan i ymarferwyr ynghylch sut mae adnabod anghenion plant a allai fod wedi cael eu masnachu ac ymateb yn effeithiol iddyn nhw.

### Gweithiwr arbenigol

Teimlai nifer o bobl y byddai o gymorth gallu mynd at rywun oedd â gwybodaeth arbenigol i roi eglurhad ar bryderon a chyngor ar weithdrefnau. Yn gysylltiedig â hyn roedd y farn a fynegwyd yn bendant, ac a grynhowyd gan swyddog polisi o'r sector gwirfoddol, mai:

*"dim ond staff profiadol ddylai fod yn datblygu'r gwaith yma".*

Dylid datblygu aelod arweiniol o staff sydd â phrofiad o faterion masnachu plant yn ardal pob awdurdod lleol. Mae angen dull aml-asiantaeth o fynd i'r afael â masnachu plant.

Bydd profiad a hyfforddiant ar gyfer y staff arweiniol yn hanfodol i helpu i ymdrin â'r mater hwn.

Fel mae'r adroddiad hwn wedi amlygu, mae'r wybodaeth am fasnachu pobl yn amrywio o un awdurdod lleol i'r nesaf. Mae Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (WSMP) yn cyflogi Gweithiwr Cyngor a Gwybodaeth i Blant sy'n Ffoaduriaid, ac yn un o nifer o sefydliadau, yn cynnwys ECPAT UK a'r NSPCC, sy'n gallu darparu gwybodaeth ynghylch materion masnachu pobl.

### A2. Argymhelliad Comisiynydd Plant Cymru

Dylai Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru barhau i gynyddu ymwybyddiaeth o rôl ei Gweithiwr Cyngor a Gwybodaeth i Blant sy'n Ffoaduriaid. Rôl y gweithiwr yma yw darparu cyngor a gwybodaeth am ystod eang o faterion sy'n ymwneud â phlant sy'n ffoaduriaid, er enghraifft cyfeirio galwyr sydd ag ymholiadau am bynciau penodol, yn cynnwys masnachu pobl, at y sefydliadau a'r unigolion priodol.

Mae WSMP yn y broses o ddiweddaru ei gwefan yng nghyswllt masnachu pobl, gan gyhoeddi dolenni i adroddiadau, canllawiau a phrotocolau allweddol yn y maes – i gyd wedi eu coladu gan WSMP. Ar lefel strategol, bydd WSMP yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth a chasglu gwybodaeth am faterion masnachu pobl, gan annog ymateb cydlynus.

Dylai'r holl Fyrddau Diogelu Plant Lleol (BDPLl) sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei lledaenu i sefydliadau perthnasol.

### Gofalwyr maeth arbenigol

Wrth gydnabod anghenion penodol plant a gafodd eu masnachu, gofynnodd nifer o gyfranogwyr pa gefnogaeth arbenigol ddylai gael ei darparu ar gyfer gofalwyr maeth.

### A3. Argymhelliad Comisiynydd Plant Cymru

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi ystyriaeth benodol yn ei Strategaeth Plant Agored i Niwed i anghenion plant a allai fod wedi cael eu masnachu, yn cynnwys hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer gofalwyr maeth.

### Bwletin 'Gwybodaeth'

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai 'bwletin' a oedd yn nodi tueddiadau diweddar, megis y cynnydd diweddar mewn menywod o Tsieina sy'n hawlio gwasanaethau, yn ddefnyddiol. Roedd hyn yn deillio o un sefydliad sector gwirfoddol a wnaeth ei holl swyddfeydd yn ymwybodol o duedd newydd ym maes masnachu pobl yn ddiweddar: cafwyd bod hyn yn arbennig o ddefnyddiol, gan ei fod yn galluogi rhanbarthau eraill i fyfyrio ar eu profiadau cyfredol. Yn gyffredinol, roedd cynnwys y gymuned yn cael ei ystyried yn hollbwysig, gan ymgynghori â sefydliadau 'ar lawr gwlad' a'u gwneud yn rhan o weithredu lleol.

### A4. Argymhelliad Comisiynydd Plant Cymru

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru o fewn un flwyddyn i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn cynnull grŵp Cymru gyfan ar fasnachu pobl a fydd yn cwrdd o bryd i'w gilydd ac y bydd ei gylch gwaith yn cynnwys casglu a lledaenu data a gwybodaeth perthnasol a monitro tueddiadau. Dylai cynrychiolwyr o'r pedair ardal wasgaru yng Nghymru, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Barnardo's, Plant yng Nghymru, Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig, swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, NSPCC, Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru (WACPO) a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru Gyfan, gael eu gwahodd i gyfranogi a dylid cynnwys sefydliadau "ar lawr gwlad" yn y prosesau rhannu gwybodaeth.

## Materion Polisi

### Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC)

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr fod gan LlCC rôl arweiniol o ran symud materion masnachu plant ymlaen. I rai, roedd hyn yn golygu cynnydd yn yr adnoddau, tra bod eraill yn teimlo bod cael person penodol yn LlCC a oedd yn gyfrifol am oruchwylio datblygiadau yn ddefnyddiol.

Roedd sawl un o'r cyfranogwyr o'r farn, er bod LlCC yn dda am lunio polisïau, ei bod yn llai llwyddiannus wrth sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu ledled Cymru. Yn ystod cyfnod y cyfweliadau, yn haf 2008, ychydig iawn o'r cyfranogwyr oedd yn ymwybodol bod fersiwn derfynol o arweiniad LlCC yn cael ei lansio; nid oedd rhai hyd yn oed yn ymwybodol bod LlCC yn llunio polisi o'r fath.

Ar ben hyn, derbyniwyd llawer o sylwadau ar yr angen am ymwybyddiaeth gymunedol, ac roedd hyn yn cwmpasu pob cymuned, nid dim ond ymgyrchoedd a oedd yn targedu grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn benodol.

Roedd yr awgrymiadau i LlCC yn cynnwys yr angen am:

- Gydlynu ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, digwyddiadau cymunedol a chynadleddau ar fasnachu pobl
- Sicrhau bod cymunedau'n derbyn gwybodaeth am fasnachu plant a beth i'w wneud am hynny
- Sicrhau lleoliadau diogel ar gyfer plant sydd wedi dioddef masnachu yn dilyn y datblygiadau cadarnhaol o ran lloches arbenigol i oedolion sydd wedi dioddef masnachu
- Ystyried sut gellir diwallu anghenion therapiwtig plant sydd wedi cael eu gwahanu a'u masnachu.

### A5. Argymhelliad Comisiynydd Plant Cymru

Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried yr awgrymiadau hyn a'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn ac yn ymateb o fewn un flwyddyn i gyhoeddi'r adroddiad.

### Byrddau Diogelu Plant Lleol (BDPLl)

Nodwyd strwythur y BDPLl fel system briodol i ddatblygu materion diogelu ar lefel leol.

- Hyd yma, dim ond un BDPLl sydd wedi datblygu ei Brotocol Masnachu Plant ei hun, ac roedd rhai cyfranogwyr eraill yn teimlo y byddai hynny'n ddatblygiad defnyddiol ar gyfer pob BDPLl. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth bod angen rhywfaint o gysondeb ar draws Cymru yn ogystal
- Roedd nifer o asiantaethau sector gwirfoddol yn dymuno i'w pryderon gael eu cymryd yn fwy o ddifri gan asiantaethau statudol, ac am weld ymateb cyflymach. Y sail ar gyfer hyn oedd pryder ynghylch trothwyon gweithredu ac ymyrraeth gan y gwasanaethau cymdeithasol
- Daeth gwaith partneriaeth, yn enwedig rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol, i'r amlwg fel rhywbeth oedd yn achosi problemau mewn rhai meysydd. Nodwyd mai grwpiau aml-asiantaeth sy'n cynnwys partneriaid o'r tu allan i strwythurau cyfredol y BDPLl, megis cyfreithwyr mewnfudo, yw'r ffordd ymlaen.

### A6. Argymhelliad Comisiynydd Plant Cymru

Bod yr holl Fyrddau Diogelu Plant Lleol yn rhoi Arweiniad 2008 ar Ddiogelu Plant a allai fod wedi cael eu Masnachu ar waith o fewn un flwyddyn i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

# Diweddglo



Bu'r astudiaeth hon ar raddfa fach yn ystyried a oes sail o dystiolaeth bod plant yn cael eu masnachu yng Nghymru. Cafwyd tystiolaeth o achosion a gadarnhawyd ac achosion lle roedd amheuon ynghylch masnachu plant wedi dod i sylw'r gwasanaethau cymdeithasol, y sector gwirfoddol a'r heddlu. Casglwyd data gan 41 o ymarferwyr a ddisgrifiodd 32 o achosion a oedd yn destun pryder iddynt. Mae'r achosion hyn yn ymwneud â phlant tair a hanner oed a throsodd, o amrywiaeth o wledydd yn enedigol. Roedd yn drawiadol bod mwy o fechgyn na merched wedi'u nodi yn yr astudiaeth hon. Disgrifiwyd y plant mewn sefyllfaoedd lle roeddent yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol, mewn caethwasanaeth yn y cartref, yn cynhyrchu canabis, yn troseddu ar y stryd ac yn gwneud llafur gorfod.

**Nodwyd nifer o ffactorau oedd yn gwneud y plant a ddisgrifiwyd i ni yn yr astudiaeth hon yn agored i niwed. Roedd rhai ohonynt wedi bod yng Nghymru ers peth amser ac wedi parhau'n 'gudd' i wasanaethau, gan achosi syndod a phryder ynghylch sut mae hynny'n bosib. Hyd yn oed pan oedd y plant yn hysbys, yn aml nid oedd y risgiau y gallent fod yn eu hwynebu yn cael eu hasesu. Roedd hyn yn arbennig o wir yng nghyswllt awdurdodau'n caniatáu i blant fyw gydag oedolion nad oeddent yn eu hadnabod, heb gynnal unrhyw asesiad priodol o ddichonoldeb y sefyllfa. Mae hyn yn groes i'r Rheoliadau Maethu Preifat sy'n gweithredu yng Nghymru.**



Cafwyd hyd i dystiolaeth hefyd o blant yn cael eu troseddoli'n amhriodol am weithgareddau roedd eu masnachwyr yn eu gorfodi i'w cyflawni. Ar rai achlysuron, ni chymerwyd camau diogelu gyda'r plant hyn hyd yn oed pan oedd y gweithdrefnau'n nodi'n glir bod angen ymyrryd. Roedd ymarferwyr niferus yn egluro hyn yn nhermau'r bwlch a ganfyddid rhwng sut roedd y gwasanaethau statudol yn delio â phlant oedd yn ddinasyddion a phlant a wahanwyd. Mae'r goblygiadau'n glir: ar adegau gadewir plant a wahanwyd yn agored i niwed oherwydd eu bod yn cael eu trin yn wahanol i blant sy'n ddinasyddion y DU.

Cafwyd hyd i blant a fasnachwyd ledled Cymru, ac roedd tystiolaeth sylweddol i ddangos bod ardaloedd y tu allan i Dde-ddwyrain Cymru wedi dod ar draws plant a fasnachwyd. Ychydig o wybodaeth benodol oedd ar gael am sut roedd pob plentyn wedi cyrraedd Cymru, ond yn yr astudiaeth hon, roedd y mwyafrif wedi dod i'r DU trwy Dde-ddwyrain Lloegr.

Daeth tri mater sylfaenol i'r amlwg yng nghyswllt plant a fasnachwyd: agweddau, gwybodaeth ac arfer. Dengys tystiolaeth o'r astudiaeth hon ei bod hi'n hanfodol i ymarferwyr a'r asiantaethau y maent yn gweithio iddynt fedru ystyried y gallai masnachu plant fod yn digwydd yn eu hardal leol. Mae eu hadnabod yn dibynnu ar dderbyn bod y broblem yn bodoli mewn gwirionedd; mae anghysondeb yr ymatebion i blant yn arwydd o'r bylchau yng ngwybodaeth rhai sefydliadau. Er bod y fframwaith diogelu statudol wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer rhai plant, gadawyd eraill yn agored i niwed trwy ddiffyg atgyfeirio neu asesiad. Os yw'r agweddau a'r wybodaeth yn elfennol, mae'r broses o ddiogelu plant a fasnachwyd a hyrwyddo'u lles yn dod yn un sy'n llawn anawsterau. Mae hyn yn effeithio ar gydweithrediad mewn rhai achosion, a ddisgrifir yn aml fel rhywbeth bylchog. Mewn rhai ardaloedd, roedd strwythurau ffurfiol yn hwyluso'r cydweithio, ond i'r mwyafrif, byddai gwaith rhyng-asiantaeth gwell yn ddymunol.

Rhaid i'r gefnogaeth a'r rheolaeth drefniadol fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo derbyn masnachu plant fel mater sy'n gallu bodoli ac yn digwydd yn eu hardal leol, yn ogystal â darparu hyfforddiant fel bod y staff yn caffael gwybodaeth, yn ymarfer yn effeithiol ac yn sicrhau bod plant a allai fod wedi cael eu masnachu bob amser yn cael eu hamddiffyn. Gall y diwylliant o anghrediniaeth mewn strwythurau sefydliadol arwain at arfer gwael, ac mae'n cynyddu'r risg i blant yn sylweddol. I'r gwrthwyneb, lle ceir anogaeth a strwythur cefnogi i ddatblygu agweddau cadarnhaol, gwybodaeth gadarn ac arfer da, dengys tystiolaeth achosion fod plant yn cael eu canfod yn llawer cynharach a bod ymyrraeth i'w hamddiffyn a'u diogelu'n fwy effeithiol.

## Rhestr o Acronymau

| | |
|---|---|
| ASU | Uned Sgrinio Lloches |
| BAAF | Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain |
| FfAC | Fframwaith Asesu Cyffredin |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc |
| CEOP | Canolfan Amddiffyn Plant rhag Ecsbloetio ar-lein |
| CTAIL | Llinell Gyngor a Gwybodaeth ar Fasnachu Plant (NSPCC) |
| ECPAT UK | End Child Prostitution, Child Pornography and the Trafficking of Children for Sexual Purposes |
| DCSF | Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd |
| BDPLl | Bwrdd Diogelu Plant Lleol |
| NASS | Gwasanaeth Cenedlaethol Cefnogaeth wrth Geisio Lloches (UKBA bellach) |
| NRM | Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol |
| SERAF | Fframwaith Asesu Risg Ecsbloetio Rhywiol |
| UASC | Plentyn sy'n ceisio lloches heb ei hebrwng |
| UKBA | Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig |
| CCUHP | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plant |
| LlCC | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| WSMP | Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru |



## Atodiad 1 – Gwybodaeth Gefndir am y lleoliadau

### Caerdydd

Caerdydd yw prifddinas Cymru, ac mae wedi'i lleoli ar arfordir y De-ddwyrain. Mae ganddi boblogaeth o 317.5 mil[64]. Mae'n borthladd môr masnachol sylweddol, sydd hefyd yn harbwr i longau pleser, ac yn agos iawn i'r M4. Mae gan Gaerdydd hefyd faes awyr rhyngwladol sy'n derbyn dros ddwy filiwn o deithwyr y flwyddyn o bob rhan o'r byd[65].

Yng Nghaerdydd y ceir y crynodiad mwyaf o grwpiau ethnig – mae tua hanner yr holl bobl Ddu ac Asiaidd sy'n byw yn y tair dinas fwyaf (Caerdydd, Casnewydd, Abertawe) yn byw yng Nghaerdydd[66]. Mae gan y ddinas hanes hir o dderbyn ymfudwyr, a'r grwpiau ethnig mwyaf yw pobl Asiaidd (3.95%), Du (1.28%), Tsieineaidd (1.2%) a Chymysg (2%)[67].

Mae Caerdydd yn un o'r pedair ardal wasgaru ar gyfer ceiswyr lloches yng Nghymru, ac yno y ceir y ganran uchaf o geiswyr lloches yng Nghymru[68]. O blith rhyw 2,605 o geiswyr lloches yng Nghymru, amcangyfrifir bod 44% yn byw yng Nghaerdydd, gyda'r mwyafrif ohonynt yn derbyn cefnogaeth lawn gan y Swyddfa Gartref[69].

### Casnewydd

Lleolir Casnewydd ar arfordir De-ddwyrain Cymru, gyda phoblogaeth o 140.1 mil[70]. Mae gwaith adnewyddu helaeth yn digwydd yno ar hyn o bryd, yn arbennig i wella'i hygyrchedd ar y rheilffyrdd a'r ffyrdd[71]. Mae o fewn cyrraedd hwylus i Gyffyrdd 24 a 28 ar yr M4, ac mae hefyd yn borthladd masnachol[72].

Mae tua phump y cant o boblogaeth Casnewydd yn grwpiau ethnig, gyda'r mwyaf yn bobl Pacistani (1.4%), Asiaidd Eraill (1.5%), Du (1.2%) a Tsieineaidd ac Eraill (0.7%)[73].

Mae Casnewydd yn un o'r pedair ardal wasgaru ar gyfer ceiswyr lloches ac amcangyfrifir ei bod yn derbyn rhyw 16% o'r ceiswyr lloches[74].

### Abertawe

Lleolir Abertawe ar arfordir De-orllewin Cymru. Yno mae'r boblogaeth drydedd fwyaf yng Nghymru, sef 227.1 mil o bobl[75].

Mae Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd lai nag awr o'r ddinas mewn car. Mae gan Abertawe hefyd ei maes awyr ei hun, er mai ar gyfer awyrennau bach a phreifat y mae'n cael ei ddefnyddio'n bennaf. Mae'n borthladd masnachu prysur, ac yn gysylltiad i Iwerddon, Gogledd a Gorllewin Ewrop a Môr y Canoldir. Mae hefyd yn derbyn llongau pleser ac yn darparu cysylltiad fferi â Chorc[76].

Mae Abertawe'n un o'r pedair ardal wasgaru ar gyfer ceiswyr lloches yng Nghymru, ac yn cynnal yr ail boblogaeth fwyaf o geiswyr lloches yn y wlad, sef 36% o'r cyfanswm[77].

### Wrecsam

Tref farchnad yng Ngogledd-ddwyrain Cymru yw Wrecsam. Mae ganddi boblogaeth o 131,000[78].

Grwpiau ethnig Asiaidd yw'r lleifrifoedd mwyaf yn Wrecsam (rhyw 0.4%), ond mae hefyd gymunedau Du (0.24%) a Tseineaidd neu eraill (0.28%) yn yr ardal[79].

Mae Wrecsam yn un o'r pedair ardal wasgaru ar gyfer ceiswyr lloches sydd wedi bodoli yng Nghymru ers 2001, ond dim ond nifer bach o unigolion sy'n ceisio lloches a dderbyniwyd yno[80].

## Atodiad 2 – CwestiynauTrefn y Cyfweliadau

1. Allwch chi sôn rhywfaint wrthyf fi am eich gwaith a sut mae'n ymwneud ag amddiffyn plant agored i niwed o wledydd tramor?

2. Edrychwch ar y sefyllfaoedd yma. Ydych chi wedi dod ar draws unrhyw achosion tebyg i'r rhain wrth eich gwaith? Manylion

   a. Sut buoch chi'n delio â'r achosion yma?
   b. Gawsoch chi unrhyw drafferthion wrth ddelio â nhw? Manylion

3. Fu gennych chi unrhyw amheuon ynghylch amgylchiadau, efallai rhai tebyg i'r sefyllfaoedd, unrhyw blentyn neu blant o dramor yn eich gwaith?

   a. Pa weithdrefnau sy'n cael eu defnyddio?
   b Lwyddoch chi i ymchwilio i hynny o gwbl? (manylion)
   c. Gawsoch chi/Ydych chi'n cael unrhyw drafferth ymateb i'ch amheuon?

4. Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n amau bod person ifanc o wlad dramor yn cael ei ecsbloetio?

   a. What procedures are used?
   b. Sut mae'r wybodaeth yn cael ei chofnodi?

5. Pa mor ymwybodol fyddech chi'n dweud yw [eich] staff o faterion yn ymwneud â phlant agored i niwed o wledydd tramor?

   a. Procio: gwahanol lefelau o staff
   b. Sut mae cynyddu ymwybyddiaeth?

6. Petai aelod o'ch staff chi yn dod ar draws achos posib o fasnachu plant, pa mor hyderus ydych chi y byddai e/hi yn adnabod yr arwyddion?

   a. Fyddai e/hi yn gwybod beth i'w wneud?
   b. Ydych chi wedi nodi unrhyw ddangosyddion risg ar gyfer ecsbloetio plant o wledydd tramor?

7. Ydych chi'n gweithio gydag asiantaethau eraill i amddiffyn plant o wledydd tramor?

   a. Trafod: pa asiantaethau?
   b. Trefniadau strwythuredig neu ad hoc?
   c. Allwch chi gofio unrhyw achosion penodol?

8. Ydy gwybodaeth am achosion neu achosion a amheuir sy'n ymwneud â phlant agored i niwed o wledydd tramor yn cael eu rhannu ymhlith yr asiantaethau dan sylw?

   a. Procio: pa asiantaethau?
   b. A oes anawsterau wrth rannu gwybodaeth? Archwilio

9. Yn eich barn chi, beth fyddai o gymorth i chi/i'r asiantaeth rydych yn gweithio iddi ymateb i anghenion plant a allai fod wedi cael eu masnachu?

10. Yn eich barn chi, pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddatblygu gwaith ar fasnachu plant yng Nghymru?

11. Oes na unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud yng nghyswllt amddiffyn plant agored i niwed o wledydd tramor nad ydym ni wedi'i drafod?

Diolch yn fawr.



## Atodiad 3 – Sefyllfaoedd

### Sefyllfa Un
Daeth plentyn 12 oed o wlad dramor i'r DU gyda Modryb, gan ddisgwyl derbyn addysg. Fodd bynnag, nid oedd hi'n cael mynd i'r ysgol. Yn hytrach, cafodd ei gorfodi i weithio yn y tŷ, ac yn ddiweddarach rhedodd i ffwrdd.

### Sefyllfa Dau
Cyrhaeddodd merch Tsieineaidd (14) heb ei hebrwng a hawlio lloches ym maes awyr Caerdydd. Cafodd ei rhoi yng ngofal y gwasanaethau cymdeithasol, ond diflannodd 48 awr yn ddiweddarach o gartref ei gofalwr maeth.

### Sefyllfa Tri
Cafwyd hyd i ferch ifanc (16) o Ddwyrain Ewrop mewn sawna, yn gwerthu gwasanaethau personol. Dywedodd ei bod wedi dod i'r DU yn sgîl addewidion am gyflogaeth dda. Ond pan gyrhaeddodd hi'r DU, roedd yr 'asiant' a oedd wedi talu costau'r daith wedi wedi ei gwerthu i berchennog y sawna, a oedd wedi ei bygwth â thrais oni bai ei bod yn gwneud yr hyn roedd e'n ei ddymuno.

### Sefyllfa Pedwar
Cyfeirir bachgen ifanc (15) o Fietnam i'r Tîm Troseddau Ieuenctid ar ôl cael hyd iddo mewn tŷ a oedd wedi cael ei droi'n ffatri canabis. Mae'r bachgen yma'n cael ei gyhuddo o dyfu canabis ac o fod yn y DU yn anghyfreithlon.

### Sefyllfa Pump
Cymerir nifer o blant o Rwmania i ofal yr awdurdod lleol ar ôl darganfod eu bod wedi cael eu defnyddio gan wahanol oedolion i hawlio budd-daliadau trwy dwyll a'u gorfodi i ddwyn ar y strydoedd. Mae'r fenyw a ddaeth â nhw i'r DU wedi cael ei harestio.

## Atodiad 4 – Rhestr Gwirio Pryderon

Cyfarwyddiadau: Llenwch y ffurflen, os gwelwch yn dda, gan nodi eich atebion â chroes

### Amdanoch Chi:

Ym mha ardal rydych chi'n gweithio?

- ◯ Caerdydd
- ◯ Casnewydd
- ◯ Abertawe
- ◯ Wrecsam
- ◯ Ardal nad yw'n ardal wasgaru

I ba fath o sefydliad rydych chi'n gweithio/gwirfoddoli?

- ◯ Statudol
- ◯ Gwirfoddol
- ◯ Arall

### Am y person ifanc:

Rhyw

- ◯ Gwryw
- ◯ Benyw

Ystod oed

- ◯ O dan 5
- ◯ 5-10 oed
- ◯ 10-13 oed
- ◯ 13-16 oed
- ◯ 17-18 oed

Anghytundeb o ran yr oedran?

- ◯ Nac oes
- ◯ Oes – rhowch fwy o fanylion os gallwch

Gwlad enedigol

______________________

| Ydy'r person ifanc: | Y/N | (Rhowch fanylion lle gallwch) |
|---|---|---|
| Yn meddu ar basbort neu ddogfennau adnabod eraill? | | |
| Yn gallu egluro pam mae yn y DU? | | |
| Yn cadw mewn cysylltiad â'r teulu yn y wlad enedigol? | | |
| Yn adrodd stori wedi'i pharatoi sy'n debyg i'r hyn a gafwyd gan bobl ifanc eraill? | | |
| Yn byw gydag oedolyn nad yw'n brif ofalwr iddo/i? | | |
| Yn byw mewn cyfeiriad 'amlwg' lle mae nifer o blant nad ydynt yn perthyn i'w gilydd yn byw? | | |
| Yn gorfod talu dyledion? | | |
| Yn mynnu gweithio? | | |
| Yn gweithio, ond heb gyflog/arian i bob golwg? | | |
| Yn cardota am arian? | | |
| Yn derbyn galwadau ffôn heb esboniad? | | |
| Yn meddu ar arian a nwyddau na ellir eu hesbonio? | | |
| Yn arddangos arwyddion ecsbloetio rhywiol posib megis haint a drosglwyddir drwy ryw (STI) neu feichiogrwydd diofyn? | | |
| Yn cael ei (g)weld mewn mannau sy'n gysylltiedig ag ecsbloetio rhywiol? | | |



| | Y/N | (Rhowch fanylion lle gallwch) |
|---|---|---|
| Yn mynd ar goll? | | |
| Yn arddangos arwyddion esgeulustod? | | |
| Yn meddu ar le mewn ysgol? | | |
| Yn meddu ar Feddyg Teulu? | | |
| Yn wynebu euogfarn troseddol? | | |

### Hanes yr Achos

Lle ar gyfer unrhyw fanylion ychwanegol y dymunwch eu hychwanegu:

Diolch yn fawr

### Dychwelwch y ffurflen drwy:

— E-bost at e.kelly@ecpat.org.uk
— Ffacs i 0207 2339869
— Bostio at: Emma Kelly. ECPAT UK, 35-37 Grosvenor Gardens, Grosvenor Gardens House, London, SW1W OBS

## Atodiad 5 – Ymatebwyr

- Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru Gyfan
- Amnest Rhyngwladol
- Gwasanaeth Seraf Barnardo's Cymru
- BASWO
- Cyngor Caerdydd
- Plant yng Nghymru
- Dinas a Sir Abertawe
- Heddlu Dyfed Powys
- Heddlu Gwent
- NSPCC Cymru
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Heddlu Gogledd Cymru
- Heddlu De Cymru
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Awdurdodau Lleol a ymatebodd i'r holiadur:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Tâf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam



## Atodiad 6 – Modelau Arfer Da

Yn yr astudiaeth hon soniwyd wrthym am nifer o fodelau arfer da. Mae'n bosib iawn bod modelau arfer da eraill ar waith yn lleol ledled Cymru, ond ni soniwyd am y rheiny wrth yr ymchwilwyr yn ystod y cyfweliadau.

### 1. Protocol Masnachu Pobl BDPLl

Mae BDPLl Caerdydd wedi datblygu 'Protocol Aml-asiantaeth ar gyfer Diogelu Plant a allai fod wedi cael eu Masnachu'. Dyma'r unig BDPLl yng Nghymru sydd wedi gwneud hyn ac mae'n adeiladu ar yr argymhelliad y dylai BDPLlau ddatblygu protocol o'r fath yn 'Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004, canllaw i Fyrddau Diogelu Plant Lleol'.

Mae'r protocol ar gael o wefan Cyngor Caerdydd: **www.cardiff.gov.uk**

### 2. Cyfarfod Ymarferwyr Aml-asiantaeth

Yng Nghasnewydd mae'r Grŵp Ymarferwyr Iechyd, Addysg a Lles yn cyfarfod bob mis. Mae'r grŵp hwn yn dod ag ystod o ymarferwyr o'r sector gwirfoddol, y sector statudol, yr Heddlu a darparwyr tai preifat at ei gilydd. Mae'r grŵp yn ystyried materion ac achosion penodol yng nghyswllt ceiswyr lloches, ffoaduriaid a gweithwyr mudol, sy'n cynnwys plant a wahanwyd yn ogystal â theuluoedd. Y nod yw darparu dull rhyng-asiantaeth cydlynus, gan alluogi a hyrwyddo arfer gorau wrth ddarparu gwasanaethau i geiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr yng Nghasnewydd.

Nod y bartneriaeth hon yw cynyddu eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau sy'n cymryd rhan, lleihau'r dyblygu a'r bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a chynyddu'r gwasanaethau sy'n cydweddu â'i gilydd. Bydd materion sy'n destun pryder cyffredinol, 'themâu a thueddiadau', yn cael eu hanfon ymlaen at yr asiantaethau a'r partneriaethau perthnasol megis y Grŵp Aml-asiantaeth ar gyfer Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches ac Ymfudwyr a/neu Bartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru Gyfan (Ceiswyr Lloches, Ffoaduriaid ac Ymfudwyr).

### 3. Swydd Cymru Gyfan – Gweithiwr Cyngor a Gwybodaeth i Blant sy'n Ffoaduriaid

Mae Gweithiwr Cyngor a Gwybodaeth i Blant sy'n Ffoaduriaid yn bodoli i gynnal gwaith Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru. Rôl y gweithiwr yma yw darparu cyngor a gwybodaeth am ystod eang o faterion sy'n ymwneud â phlant sy'n ffoaduriaid, er enghraifft cyfeirio galwyr sydd ag ymholiadau am bynciau penodol, yn cynnwys masnachu pobl, at y sefydliadau a'r unigolion priodol. Cysylltwch â'r gweithiwr Cyngor a Gwybodaeth i Blant sy'n Ffoaduriaid yn:

**Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru**
Byngalo Brynglas
Heol Brynglas
Casnewydd, NP20 5QU

Rhif ffôn: 01633 855095

## Ôl-nodiadau

[1] Hewett, T., Smalley, N., Dunkerly, D., a Scourfield, J., (2005). *Uncertain Futures: Children Seeking Asylum in Wales.* Caerdydd, Achub y Plant Cymru.

[2] Somerset, C., (2001). *What the Professionals Know; The trafficking of children into and through the UK for sexual purposes.* Llundain, ECPAT UK.

[3] Somerset, C. (2004). *A Cause for Concern: London Social Services & Child Trafficking* London, ECPAT UK.

[4] Kapoor, A. (2007) *A Scoping project on Child Trafficking in the UK.* Llundain, CEOP.

[5] O dystiolaeth a gasglwyd yn ystod hyfforddiant ECPAT UK.

[6] Defnyddir y term hwn ar hyd yr astudiaeth gan mai ychydig o Gynghorau yn unig yng Nghymru sydd wedi sefydlu Awdurdod Gwasanaethau Plant yn unol â'r diffiniad yn Neddf Plant 2004.

[7] Somerset, C., (2004) op.cit. Beddoe, C., (2007) *Missing Out: A Study of Child Trafficking in the North-West, North East and West Midlands.* Llundain, ECPAT UK. Kapoor A (2007) op.cit

[8] Office of Public Sector Information (2003) *Sexual Offences Act.* Ar gael yn: http://www.opsi.gov.uk/Acts/acts2003/ukpga_20030042_en_5#pt1-pb15-l1g58

[9] ECPAT UK (2008) 'Internal Trafficking of Children in the UK' yn *Connect to Protect*, Haf 2008

[10] Office of Public Sector Information. *Asylum & Immigration Act (treatment of Claimants ,etc.)* 2004. Adran 4, paragraff 2.

[11] *Confensiwn Cyngor Ewrop* (2005) t.45

[12] Tîm aml-asiantaeth a sefydlwyd i frwydro yn erbyn masnachu pobl yw UKHTC. I gael rhagor o wybodaeth, gweler http://www.blueblindfold.co.uk/aboutukhtc/

[13] Crawley, Heaven.,(2007). *When is a child not a child? Asylum, age disputes and the process of age assessment.* Llundain, ILPA.

[14] Y Swyddfa Gartref (2007). *UK Action Plan on Human Trafficking* t.60

[15] Y Swyddfa Gartref (2008) *Update to the Human Action Plan on Tackling Human Trafficking.* t.33

[16] Office of Public Sector Information (2004). *Children Act* (2004)

[17] UKBA (2009). *Code of Practice for Keeping Children Safe From Harm.* t.4

[18] www.service.parliament.uk/ Bills and Legislation - Borders, Citizenship and Immigration Bill

[19] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008A) Adolygiad o Reoliadau a Chanllawiau, Adroddiad y Grŵp Adolygu.

[20] LlCC (2008B) Strategaeth ar gyfer Cynnwys Ffoaduriaid, Cylchlythyr 01/2008, t.1.

[21] Machin (2008) 'Centre to help sex trafficking victims', *South Wales Echo*, 28.07.2008

[22] Coles, J. (2005) op.cit.

[23] Gwybodaeth yn sgîl cwrdd â'r staff yng ngwasanaeth SERAF Barnardos Cymru

[24] Clutton, S., & Coles, J., (2008). *Child Sexual exploitation in Wales: 3 years on.* Cyfarwyddyd Polisi ac Arfer, Rhif 3. Caerdydd, Barnardos Cymru

[25] Amnest Rhyngwladol (2007). *Under the Covers: Trafficking for sexual exploitation in Wales.* Y DU, Amnest Rhyngwladol.

[26] Machin, N., (2008). Centre to help sex trafficking victims. Wales Online, 28.07.08. Ar gael yn: http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/2008/07/28/centre-to-help-sex-trafficking-victims-91466-21417781/

[27] Gohebiaeth e-bost gyda'r Poppy Project ar 01.09.2008

[28] EGohebiaeth e-bost a ffôn gyda CTAIL ar 16.02.2009

[29] Achub y Plant a UNCHR (2004) *Datganiad Arfer Da*, t.2.

[30] Hewett, T. et al., (2006) op.cit. t.31

[31] Ibid t.72

[32] Achub y Plant (2008) *Agenda for Action – The care and protection of asylum-seeker and trafficked children in Wales*, Achub y Plant.

[33] Robinson, Yr Athro Vaughn (2006) *Mapping the Field; Refugee Housing in Wales.* Hact a Chyngor Ffoaduriaid Cymru.



[34] Cyngor Ffoaduriaid Cymru. *Asylum Seekers and Refugees in Wales.* Ar gael yn: http://www.welshrefugeecouncil.org/publications.php

[35] BAAF & Refugee Council (2001). *Where are the Children? A mapping exercise on the number of UASC in the UK; September 2000 to March 2001*

[36] Cyngor Ffoaduriaid Cymru, op.cit.

[37] Gwefan Dinas Casnewydd. Ar gael yn: http://www.newport.gov.uk/_dc/index.cfm?fuseaction=refugeesasylum.refugeinwales

[38] ECPAT UK (2007) op.cit. Kapoor, A,. (2007) op.cit.

[39] Care Leavers Association (2009). Ar gael yn: http://www.careleavers.com/

[40] Ibid

[41] Kaminski (2008) Stop Them Going Missing. *TES*, 28.03.08. Sharkey, M. (2008) Fears over children being forced into prostitution. *Western Echo* on 07.07.2008

[42] Taflen Llywodraeth Cynulliad Cymru "Ydych chi'n gofalu am blentyn rhywun arall?'

[43] Ystadegau LlCC ar gyfer Cymru (2008C) *Fostering and Adoption Intermediary services, year ending 31st March 2008*

[44] Children Now (2006), *Private Fostering: Lessons to be learnt* (06.12.06)

[45] Robinson, V., (2006) op.cit. Hewett, T.,(2005) op.cit.

[46] Confensiwn Cyngor Ewrop (2005) t.45

[47] Kapoor, A,. (2007) op cit , ECPAT UK (2007) op. cit. Dowling, S., Moreton, K., a Wright, L. (2007) *Trafficking for the purposes of labour exploitation: a literature review.* Adroddiad ar-lein y Swyddfa Gartref.

[48] Kapoor, A,. (2007) op cit. ECPAT UK (2007) op cit.

[49] Robinson, V,. (2006) op.cit

[50] Kappor (2007) op.cit. ECPAT UK (2007) op.cit.

[51] ECPAT UK 2001, 2004, 2007, op cit.

[52] Spataro, J,. Moss, A,. a Wells, D., (2001) Child Sexual Abuse; a reality for both sexes. Australian Psychologist, Cyfrol 36, Rhifyn 3 Tachwedd 2001, tud. 177 - 183

[53] LlCC (2008D) Canllaw ar Ddiogelu Plant a allai fod wedi cael eu Masnachu t.38

[54] Diffiniad UKBA o ganiatâd diderfyn i aros (ILR a ddefnyddir yn aml) yw 'caniatâd i aros yn barhaol (ymsefydlu) yn y Deyrnas Unedig, heb reolaeth fewnfudo'.

[55] Rheoliadau Plant (Trefniadau Maethu Preifat) (Cymru) 2006.

[56] Ibid.

[57] Shackel, S (2008) Slavery on Britain's Cannabis Farms. *New Statesmen* on 26.11.2008

[58] BBC News online (2008) 'Landlord found cannabis factory', 14.07.2008. Cyrchwyd ar 23.12.08 yn http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/south_east/7504145.stm

[59] CPS (2008) *Prosecution Of Young Defendants Charged With Offences Who Might Be Trafficked Victims, Legal Guidance*

[60] Y Swyddfa Gartref (2004) *Children & Families; Safe from Sexual Crime, The Sexual Offences Act 2003.* Cyrchwyd ar 04.01.09. Ar gael yn: http://www.homeoffice.gov.uk/documents/children-safer-fr-sex-crime?view=Binary

[61] UKBA, General Provisions *Regarding leave to enter or remain in the United Kingdom.* Ar gael yn: http://www.bia.homeoffice.gov.uk/policyandlaw/immigrationlaw/immigrationrules/part1/

[62] LlCC,( 2008D). op.cit. t.38

[63] Dyma Adran 47 o Ddeddf Plant 1989 sy'n galluogi gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol i gynnal ymchwiliad amddiffyn plant

[64] http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/pop-2007/hdw20070822/?lang=en

[65] http://info.cwlfly.com/en/content/4/202/key-facts.html

[66] Ystadegau Gwladol ar-lein, ar gael o http://www.statistics.gov.uk/CCI/nugget.asp?ID=451&Pos=3&ColRank=2&Rank=704

[67] http://www.cardiff.gov.uk/content.asp?nav=2872%2C3256%2C3300&parent_directory_id=2865

[68] http://www.newport.gov.uk/_dc/index.cfm?fuseaction=refugeesasylum.refugeinwales

[69] Robinson, V., (2006) op.cit.

[70] http://www.newport.gov.uk/_dc/index.cfm?fuseaction=newport.homepage Tudalen Gartref Cyngor Dinas Casnewydd

[71] http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/pop-2007/hdw20070822/?lang=en (Llywodraeth Cynulliad Cymru) Gwybodaeth a oedd yn gywir ym mis Mehefin 2006.

[72] http://www.newport.gov.uk/_dc/index.cfm?fuseaction=newport.homepage Tudalen Gartref Cyngor Dinas Casnewydd

[73] http://www.newport.gov.uk/_dc/index.cfm?fuseaction=population.keystats Cyngor Dinas Casnewydd

[74] Robinson, V., (2006) op.cit. t.7

[75] http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/pop-2007/hdw20070822/?lang=en (Llywodraeth Cynulliad Cymru) Gwybodaeth a oedd yn gywir ym mis Mehefin 2006.

[76] http://www.abports.co.uk/custinfo/ports/swansea.htm

[77] Robinson, V., (2006) op.cit.

[78] http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/pop-2007/hdw20070822/?lang=en (Llywodraeth Cynulliad Cymru) Gwybodaeth a oedd yn gywir ym mis Mehefin 2006.

[79] Canrannau wedi'u cyfrifo o Gyfrifiad 2001 a gyrchwyd trwy Wefan Bwrdeistref Sirol Wrecsam http://www.wrexham.gov.uk/english/planning_portal/census/index.htm

[80] http://www.newport.gov.uk/_dc/index.cfm?fuseaction=refugeesasylum.refugeinwales